

**BRATIAU BUDRON (2)**

Bobi Jones

2012

I

BETI

(Rhagfyr 27; Wylofain Gwayw Serch; Portread o Athrawes; Llawenydd; Rhagfyr 28)

## CYNNWYS

<i>Rhagfyr 27, 2012</i>	4
<i>Eleri a'i gwyrth</i>	5
<i>Cylchdaith dagrau pethau</i>	6
<i>Datrys distrych yng nghwmni ffotograff Amelia</i>	8
<i>Wylofain Gwayw Serch</i>	10
<i>Rhagfyr 31</i>	12
<i>Hen Ffrindiau Bardd</i>	14
<i>Marwnad i Ystrydeb Radicalaidd</i>	16
<i>Connoisseur</i>	17
<i>Agenda Bardd</i>	18
<i>Dwy Freuddwyd</i>	
(i) <i>Cyfrif Defaid i Gysgu Mewn Tangnefedd (5 cerdd)</i>	20
(ii) <i>Breuddwyd Cwmwl Uwch Ceredigion (10 cerdd)</i>	25
(iii) <i>Breuddwyd Oerfel Uwch Môn (13 cerdd)</i>	37
(iv) <i>Gweddi Nos</i>	52
<i>Portread o Athrawes Gyfansawdd</i>	53
<i>Hil-laddiad drwy ddysgu hanes Llundeinig Cymru</i>	57
<i>Heilyn yn Ailystyried</i>	59
<i>Ai Geni a Mwy yw Aileni?</i>	69
<i>Llawenydd</i>	70
<i>Gweddi Brat</i>	71
<i>Heth Sgrifennu (Cân Coeden)</i>	72
<i>Megis Gefeilliaid</i>	73
<i>Teulu wrth y Bwrdd</i>	74
<i>Rhagfyr 28, 2012</i>	76

*Y TRWBADŴR YN DOD O HYD I DDYDDIAD: RHAGFYR 27, 2012*

(Penblwydd Deimwnt Priodas)

Un methiant arall i fynegi 'nghariad i.  
Methu o hyd. 'Rhy ormod', meddai'r crwt.  
Fe'i dwedaf er hynny: 'nis haeddi ef mor dwt'.  
Mae byw normaliaeth yn glwyf i hyn o gri  
Am gymorth yn y cynnwrf, lle y bydd gair  
Yn palfalu bod, yn pallu dod, yn fud  
O lafariad a chytsain 'gaiff eu chwalu o hyd.

Ond beth yw'i ystyr? Dau enaid tila a geir  
Yn gwybod heb ei ddeall. Peth felly fydd  
Diymadferth ddyn gerbron syfrdandod gwyn  
Bob eiliad heb ei haeddu. Duw 'gusanodd. Hyn  
Sy'n 'rhy ormod'. Eisiau dweud, ond diffyg chwyth  
A diffyg cwmpasu'r gwir a rowd gerbron  
Mewn cyffro nas dirnadwn dro'n 'ddigonedd' llon.

## COF YNGHYLCH CYFARFOD YMLAEN LLAW AG ELERI A'I GWYRTH

Y tro diwethaf y dest ti heibio i rannu barn,  
diflennaist.

Ti, pan ddeui ar dro, yw'r union un  
sy'n llenwi'r stafell fel arfer â'th eiriau a'th wên.  
Y tro hwn, o'r braidd dy fod yno. Roeddet ti'n  
clustfeinio ar leisio arall. A Jon a'i golff a'n denodd  
ddau hen, i'w ymddiddan. Gennyt ti caed cwmni cudd  
yn fflapian adenydd o fewn dy gawell, sug  
drwy wythiennau bonyn yn erfyn 'Rhydd! O! Rhydd.'

Clustfeinia! Yn dy gân fyfyrion, dy löwr heb lo  
a gelwyd dros dro i daro ar waliau er mwyn  
bod yn gnocell-y-coed yn hyn o lwyn, yn llais  
a geisiai rhag y tri arall gadw math o oed,  
yn llais a ddeuai'n llesol yn y man.  
Ildiem i un presenoldeb a fynnai dy gwrdd:  
y cwmpeini hardd na welem ei weledigrwydd.

Gwenet ti; ond ag ymyl dy glust y gwenet am droed.  
(Drwy'r dirgel un, doem ddau hen, yn ôl yn ifanc.)  
Dilynai dy wên ymwybod â direidi rhyw lall –  
y rhaid, yr ymyriadol: y tro hwn, yn ddistaw bach,  
y cripiaist at dy ddistaw bach. Arferem, cyn dy gawr,  
fod yn bedwar hwyliog: ciliaist yn ddau, rhag pump,  
i glywed sibrwd un...'Gwna di'n fawr o fod yn fawr!'

## CYLCHDAITH DAGRAU PETHAU

Ar y mynydd yn uchel  
lle yr egyr un deigryn  
lygad lle y tiria fwlturiaid,  
ie, o'i bwll crog (allan o'i bwll  
a grogasai fel llofrudd) –  
y sleifia dafn o heddiw dros  
ddaeareddiarffordd, lle

y cwrcyda'r manaf planhigion  
yn Somali i ofni yn ei gilydd,  
yn denau, am y galon a gludir  
oddi uchod, i fwydo na fwydo  
pob sur â'i seren tua'r isod mor hwyr.  
Dichon iddynt chwenychu'i ronyn  
sy'n gwasgaru'n ysgyrion olau  
ymlaen llaw. A dyma ef yn dod  
o hyd yn wth. Ei lygad fel

llygaid y fwlturiaid 'fu'n twrio  
uwch penglogau dilygaid  
yn nhewder cyfog y ffug ddŵr  
sy'n mudo mor anwel islaw,  
drwy'i gylch mewdol am y byd.  
A gylch y ffug hwn dan  
gramen y ddaear chwŷd o hyd  
ar rod gan anwybyddu pobl;

a rholia'r sychder-ddeigryn nes  
cyrraedd y gwastadeddau lle

y casgla'r esgyrn gamelod,  
ceffyl, a degau o blantos;  
a lle, ganllath o dan yr anial,  
y llyncir yr hylif anghyrraedd. Miliynau  
o alwyni chwerw o'r unigrwydd a ymgasgla  
yn y gwyll i ddisgwyl cael ei gario  
ar gylchdaith o gwmwl... yn ôl  
heb ei sylweddoli'n anrheg...  
uchod i ailddechrau rhoio'i alar.

DATRYYS DISTRYCH YNG NGHWMNI FFOTOGRAFF AMELIA  
'COED AR LÔN PLAS CRUG'

Weithiau mae'r llygaid yn cael eu hawntio gymaint

nes dilyn yr ymennydd i'm tŷ fel pe baent yn llun  
a fynnai aros ac a gludir yn ôl i'm silff i syllu arnaf.

Felly'r coed hyn. Y rhain a roddwyd i mi'n borthladd symudol.

Bûm yn ôl yn eu cynefin i'w siecio a fuont hwy bron yn bosibl.

A'm twyllwyd i? A gaed erioed yn sefydliad  
y fath ymosodiad o goed,

drwy dwannel twll bach o beidio, a hynny ar bapur?

Ond gorlif o wir oedd. Yno un waith

ces droi o'r cerdded i'r peidio, gan brennau'n rhewedig,  
wedi'u casglu hwy

yn glec fach o hanner dilyw. Ymwardwyd â'u munudach, a llywio'u 'byth' hwy ar lwy.

Ymestyniad fffisig oedd i'm gwella gan gysgod golau'n peidio

yn sydyn rhag pren-gamsynied

(a chael

yr union lan, yno, lle y daeth Amelia mewn haul casgledig i lawr i'w yfed)

ac na fu o'r blaen ar lawr ond ymosod gwyrdd allan o'r ceinciau llawdrwm

i ddistryw deildra

pedrongl am lygaid. Canys rhodd lon ddi-unigolion o dwf ar gerdyn yw.

Wedi eu hoed, rhwng y llun a'r coed, des adref â hwy a'u tollti'n gymdeithas

'n ddi-eiliad gyflawn ar silff. A rhwng pob drych a'r gwir arhosaf i

a drachtio aros gofio'n ddeildrwm

gartref yr ymward rhag clefyd anghred mor rhesymol am dro,

a'r gwir yno y bydd had a glaw a haul a'm Duw yn gallu'i wneud i ddyn yn lliw



na ddisgwyliai ar fore Llun ond cripiant o'r neilltu; a rhoi'n ôl mewn amlen lun.

## II

Ond gartref, os hwyli di, fab gwyrdd

gyda'th lygaid lludw,

i geisio dod o hyd yn dy gof

i safle'r gweld, cychwynfan hedeg, gweddïa heddiw

am dywydd hir. Gweddïa

i'r aros yno ymledu drachefn yn stond

fel cath yn gorweddian gartref

a'i phawennau'n cyrraedd yn dra

phell fel tywydd,

gweddïa'n araf i'w llong dy gario di

eto dros faeau sy'n cynnwys persawrau adref

i Enlli ddoeth i aros.

Ac ar ôl glanio,

cei ddadlwytho yno howldiau lu

o gof wedi'i blethu drwy gof a fu ar hed

o'u mewn ers amser maith

yn ddisgwyl i'w llygaid sanctaidd ymfudo er mwyn bodoli

yno. Bu swrcot y goedlan hon yn dy siwtio, a'th ddilladu mewn oedi

'n net, maent yn hongian am dy glust di fel caneuon

hetolau a'r entrychion gartref

yn cloi, dail yn cloi mor ffôl.

Araf yw'r distrych gwyrdd yn torri dros dy ên a'r llygaid yn aros yn ewyn awyr

a'r ceffylau gwyrdd ar eu hôl i'n môr ar eu helfa frenhinol na byddant byth mwy'n ymadael.

[Mae gan Amelia ddefod. Bydd ers blynyddoedd lawer yn tynnu llun bob dydd o rywbeth neu rywle neu rywun yn Aberystwyth.]

## WYLOFAIN GWAYW SERCH Y TRWBADŴR

*(i Beti)*

Mae'r glaw yn dyner ar y pridd.  
Mor rhydd y gwasgeri drosof i  
dy hoffter. Gwasgaraf i gawod.

Tra byddi'n law, mi ddaw fy nhir  
i wybod. Egyr gegau poen  
a chicia dyllau, lleda'r llygaid.

Bydd sychder 'graciodd grych o'r blaen  
(ond llawen yw, cans rhedi drwof)  
yn torri, dan law, fel pe bai'n alar

i flagur. Dyma raid i arthio chwerthin,  
i'm cors. Mi ddest a syflodd acer  
dan drem fy meunyddiol dywydd pêr,

trydeni, gwlychais. Chwyth dy gawod  
ar hyd fy nhrumiau. Bydd dawel, stŵr.  
Nid oes 'na storm. Ni'm gwnei yn flin,

dŵr clae'r wyt yn freuddwyd llyn  
am hesg a helyg yn gwyro drosof  
ynghyn. A'r dafnau'n twtio'r llên

a'm lapia'n ffrwydradau drwy dy wên;  
a chleddi 'mhoen mewn hoen a hyder.  
I ti, mae'r gwae yn chwerthin. Gwâr

yw atal dŵr-oer 'ddwed lai na'r gwir  
ar dir direidi pan foddaf mewn dŵr  
drwy gawod fer a'm pala'n hir.

Os saethi fi â'th lygad nwyd  
a chladdu'r hinsawdd, gwir y dof  
yn dir llawn-dwf. Fe wyddet beth i'w wneud.

## RHAGFYR 31

Dringa pawen felen fodfedd  
wrth fodfedd, yn isel, i mewn  
drwy glawdd-hwyr mynwent er mwyn  
hel dantaith o flwyddyn ar ffurf  
llygod. Mor dangnefeddus  
y stelcia felly y ddwy golsen goch  
gyda hi heb wenu, fel pe na baent am  
ddeffro'r gwylwyr hwythau a allai  
agor affwysfeydd pwr golygon  
llwyd eu claddedigaeth dybiedig.  
Dod i droi blwyddyn arall a wna.

Ni chwyth yr un corn i ddeffro'r sêr  
i'w dyletswydd o weld golygfeydd  
newydd. Y prif wyliwr gydymaith  
y tu ôl i'r gwyll yw'r gwyll:  
dau lygad heb ddim byd llai  
sydd gan bob golau eiliad. Felly  
y gwisga'r ticiadau difrif â ffwr  
yn nawns nos blwyddyn: fe wêl  
wledd waed ond nid wylant byth.  
Dod i gnoi blwyddyn fechan a wna.

Gwêl hi ddeffro'r gwylwyr prydlon.  
Tro da yw i lygod gofio am wynt oer  
hardd a hercia'n ôl ac ymlaen  
rhwng y beddau fel hyn. (Mor rhyw ddel  
yw'r potiau diflodau ym melynra'r  
hwyr.) Uwchben y gwyll, eu gwrth-wyll

hwy sy'n hofran drostynt. Ond detholir  
pob llygoden fwyn gan bawen ddiwyneb.  
Rheitiach yw hyn na'r tŷn wrth y tân  
i gath. Yma y casgla amser i'w cheg.

Fe'i casgla mewn bwystfil bas;  
mynwent a'i hanwes a gasgla  
cynefin dannedd, megis mewn aelwyd;  
fe gasgla bedd flwyddyn; a sgriala'r  
gân grwndi ar hyd gwifren y bawen  
sy'n sbio mor gandryll i'r tywyllwch.  
Gŵyr ei newyn llygaid coch am stelc.  
Er nad dyma'r cyngor defodol i ddefnyddio  
mynwent, er nad yma mae arfer swper  
namyn cig yn y gegin, fe fwytér  
ein misoedd ag awch. Y tu mewn  
i'w breuddwyd erys trais llygod  
ffrengig yn llais iddi o'r ogof;  
a dywed hi'u gwir wrth bawb ohonynt:  
'pan fwyf yn awchu blynyddoedd,  
gonestach yw ysgyrnygu cols yma  
na lolian yn y tŷ. Ac fe gân helpa  
yn fwy gwir o ddala braw byw  
yn well o wybod mai deall anian  
daear yw blingo'r heuliau'n lleuadau.

Hyn felly yw'r amser i farnu pob ynfyd,  
hyn yw'r lle y cynullir y byd.

## HEN FFRINDIAU BARDD

Hwy oedd y rhai na wyddent gymaint eu bodoli.  
Fel munudau buont danom. Heb eu clywed, rhoent.  
Buont wrthi'n gwneud eu gwaith clymiadol dof  
pan oeddem yn ceisio aros gartref yn syml ddi-hid.

Ac ni sylweddolent eu bod hwyr yma'n ddygn.  
Dringent i mewn i drigo rhwng ein bysedd  
a drysu'r blynyddoedd drwy sgrifennu'r cysur cu.  
Ac un peth yn eu bryd ond nid yn eu bwriad

oedd mynnu'r ymennydd, gan eu bod hwyr wrthi o hyd  
heb orffwys, yn rhedeg o'n cwmpas. Nid oedd daioni  
ond yn y diesboniad. Cripient heb gyfrwystra  
a sefydlu ein newid ni'n rhaid o flaen clociau cedyrn.

Heb wrthod amser, ni allai'u gwyleidd-dra'u hun  
adeiladu'r fath dwneli. Ac eto, ddyn, roedd eu ffrâm  
wrthi'n ein gwneud ni. Hwyrnt-hwyr a fu'n atalfa  
rhag sylmllder angof. Roedd fel pe bai'u cynllun oll

wedi olrhain yn garedig y pleth dan bleth uwch pleth  
dros bleth fel na allem ddianc rhag clo. . . Mae hon  
yn wlad o benbleth na chyrraedda yma byth  
ei llawn botensial. A'u potensial yw peidio â ffoi,

peidio â diweddu'r twnnel. Cer ar dy liniau  
yma. Heb aberthu annibyniaeth ni cheir cyfaill.  
Dy liniau, ddyn, defnyddia dy esgyrn adfail.  
Cyfod hefyd y cryd-cymalau dan dy lin fel llwch,

ac adeiladant dy dipyn anneall hyd y nen.  
Does unlle arall, frawd. Ynot mae ffoi ar stop.  
All pen ddim agor. Stop yw craidd pob ffordd;  
ac i'th waed fe'u toddir ar draws y fro. I ddweud

Stop. Dysg. Mae dy ffrindiau da ynot ti o hyd.

Ildio i gyfeillgarwch yw plygu ar flaenau'r traed  
at allor mewn camre 'rydd fywyd llawn i'r llall:  
y fath aur gan gyd-ddyn. Byth nis gwyddys oni  
thywelltir yn ddwfn yr hunan i'r wythïen ddall. . .

Arafu 'wnâi'r rhai nad oent hwy yma. Gwewyd  
eu gïau gan ffyddlondeb: rhoddwyd at ei gilydd  
hwy gan eiliadau sy'n ddigon culion fel y caent  
eu tynnu drwom drachefn, pan fyddem yn barod;

y rhai tu fa's a fynnai fod yn gnewyllyn tu fewn  
yn ewn eu hynni. A ninnau'n well o'u herwydd,  
rhai nid-ar-ddaeaf: moroedd yn cludo cychod mêl,  
a'u hangori yn ein haros, a'r cadw tlawd mewn cawdel.

Hwy a'n meddiannai, yr hwy a'n gwnaeth ni'n sad.  
A hynny'n sydyn a wnaethant. Nid adrodd, na'n datrys.  
Datodasant eu horiau'u hun, a chogiau clwm y we,  
a'u tywallt dros y llawr yn ddiemyntau o fyw cytûn

i'w gweld, drylliau amser wedi dod 'nôl i'w lle.

## MARWNAD I YSTRYDEB RADICALAIDD

Mor debyg ydoedd hon yn ei 'gwahaniaeth'  
fel y blinodd y bedd arni cyn iddi gyrraedd.  
O'i chladdu, ni chyfarchai'r beddfaen iddi 'hiroes'  
gan fod dillad ffasiwn y lle 'na'n ffrindiau eisoes.

Mynwent filwrol oedd 'radicaliaeth' i'w diawen  
amau, datod, gohirio, mor rheidiol iddi'n gariadon.  
Cynefino a wnaent ynnddi, megis cysgodion  
y tu ôl i'w chynffon yn llusg o weddillion llawen

a'i harfer o farw. Yn gywir, ar ei hól wylai'r hollfyd  
am mai hi oedd yr un a dynghedwyd gan yr anghreu  
i arloesi'r dyfodol; yn 'wleidyddol gywir', dilynai'r  
dorf dros orwel: Seren wib fu honno i'w hamseroedd.



## CONNOISSEUR

Mae gan bob un ei hoff ffordd o fod yn sâl.  
Minnau, bydda-i'n ei hongian fel baner ar bolyn  
ar waelod yr ardd i'm ffrindiau i gyd foesyngrymu,  
i'r darnau o gig gael diferu, a'r gwag hwn (yn ei ffordd) eu difyrru.  
Mae hynny'n anonest.

Bydd Madam Dim-Byd yn ei blygu'n ddestlus  
rhwng y cynfasau mewn drôr lle mae'n cwato  
f'arheg benblwydd. Neu dringa hi i'w daflu  
i ganol Llyn Diddim heb estyn yr un dwymyn.  
Mae hynny'n anonestach byth.

Ond y mwyaf syrffedus yw'r 'Fel-y-boi,'  
fel 'Erioed-wedi-colli-diwrnod-o-waith,' yn wado ymlaen  
drwy'n byd yn normal a'i gysgod tu ôl yn torsythu,  
tan sibrwd 'dylech, dylech' â'u dwli wrth bawb  
ar frys tua'n twll cytûn.

Na hidia Feistr Tosturi-Marw am y dull na'r pryd  
wrth gynnig dy ddwylo i bawb, heb gyrraedd unman  
â chroeso. Na falia am y ffarwelio dethol. Ymddangosi  
mewn mannau annisgwyl, ar glogwyni mewn ceir ail-law,  
lle na bydd hyd yn oed cerddi'n mentro.

## AGENDA BARDD

Mae yna dri pheth yr wyf yn eu cyfrinachu.  
Un yw fy mod yn byw gyda choeden.  
Does gan iaith coed ddim gair boddhaol ar gyfer  
'Cyd-fyw'. Ac mae dy ddail yn gwneud y fath ystryw  
O anwyldeb dirgel, tan roi cymaint mwy felly, fel  
Nad priodol barddoni am unrhyw ddau beth arall  
Amgenach na'r rhyfeddod hwn o fethu creadigol –  
A'r rhaid i fathu annigonol eiriau ar eu cyfer.

## **DWY FREUDDWYD DDI-HUN**

- 1. Cyfrif Defaid Er Mwyn Cysgu**
- 2. Breuddwyd Cwmwl Uwch Ceredigion**
- 3. Breuddwyd Oerfel Uwch Môn**
- 4. Gweddi Nos**

(i) CYFRIF DEFAID ER MWYN CYSGU MEWN TANGNEFEDD

I

O gam i gam y cymer  
    oenigau unig  
eu cam 'lan, gam yn gŵyn  
    dros ffridd a phridd –  
eu hanrheg hwy i fywyd  
    a marwolaeth  
yw'u cynnig hwy i rifo  
    nos na fydd.

Yr oedd y cwsg yr oeddent  
    yn ymgyrchu  
iddo bob amser yn prancio  
    ymhell i ffwrdd.

Clywent yr hiraeth draw  
    yn adleisio'r mynydd  
    a adleisiai hefyd  
eu meth i afael mewn cwrdd.

Os ânt yn glaf i'w nos  
    bydd pos diddatrys.

Os collir un ar ros  
    bydd twllwch toll.

Tu ôl i'w chwalfa fod  
    fe guddia freuddwyd.

'Ble'r af mewn iâ. Beth gaf?

Mae 'nghwsg ar goll.

Gwrthodant ddod, ond chwiliaf  
drysorau'u gwendid  
dros ddibyn serth diddeall  
synnwyr mwy.

Heb neb i estyn undod  
nos o'r tu allan,  
cig fyddant – gwrthyn clêr –  
yn friwsion plwy.

Ac yn eu plith ceir rhith  
o oenig fechan  
nas rhifwyd gyda'r lleill.  
Rhyw glwt o fref  
na cheisiai gwsg, na roddai  
i'r mynyddoedd  
ond patrwm trosiad  
cael rhif un yn nef.

## II

Gwsg neu beidio, mi ddô'r  
freuddwyd ddygn i lawr  
o'r mynydd i geisio porthiant.

Ar ffridd gogonedd y ffordd  
fe ddô'r oenig hon at gegaid  
o laswellt. Fe'i llyncai,

a suddo ynddo'n llathr,  
llithrai'r sir ac yna'r wlad  
a thrwy'r llwnc y byd,

heibio i'w hafalfreuant  
yr âi fy anhunedd cyfoes,  
treulid fy mynyddoedd â bref.

Brefai hi yn erbyn anhunedd. Canys  
baglai ar y ffordd ar weddillion  
o waddod sigarét, a dyfai fel

llyisiau yma, breuddwyd draw amdanaf,  
byddai'r tir yn frwnt i'r torri gwynt  
tan draed. Blewyn glas fyddai

ffridd arall. Ond mynnai'r oenig  
â'i phen ac yna â'i throed,  
wegian ar draws lles llyisiau

y ffordd, – a'm dwyn o fyd heb fod  
ond yn ddiflandod yn y bol. A than  
olwynion gwybodus lorri,

gwagiai'r oen fy hunllef fel  
afalans cwsg i'r metlin newynog,  
cyn i'r lorri lyfu prinder ei sudd.

### III

Ambell nos ddiwyd, tua dau o'r gloch, rhifaf fil o oenigau negydd.  
'Darllena rywbeth anniddorol,' dyma'r waedd annwyl o'r gwellt.  
Ond drwy ddellt y lloer, pa beth sy'n anniddorol, i brentis hen  
wedi pedwar ugain o Galanau, wedi anghofio bugeilio'i grefft

o golli anhun?... Wyt loerig, loer. A'r cyfrif, yn neidiadau'r wŷn,  
yw bod ar ddi-hun; cei eiliad diog i rollo ar dy gefn iddynt d'oglais beth;  
wyt chwys, wyt aeaf, heibio i'r grug, a heibio i'th soddi sownd;  
gyda sêr pori ar y llethr; chwerddi ar ambell eithinen a'th ddefry byth

â'i melyn hithau. Dere ataf, ceisiais locio breuddwydion yn dynn.  
Tra buost yn dringo'r llethr, ceisiais ddal un gerfydd ei chwyt  
â'm tipyn bydysawd. Ond diegni fu colli yno dy lewyrch perl  
heb iti gael amser i anfon dy diciâu at hun y cloc yn fy mhen;

chwyrliō, troelli, dryllio, ymhlith gwylltineb adnabod gwared  
mae'r wawr mor ffres â ffroes, heb ddim yn oes iti ond môr.  
Faint o leuadau sy'n cael eu cipio gan ddyrnau chwilgar?  
Rhan o rifyddeg lli yw cyfri'u diflaniad fesul un, â delfryd o sgôr.

#### IV

O Hun lle y mynnaf fy ngholli fy hun, a cheisio fy ngwacáu  
wrth gorlannu wŷn dy nos, er mwyn eu trengi hwy'n gyswllt llun  
o wryfdod breuddwyd dan fy nghesail heb liwiau byth er mwyn rhoi  
gwyndod i'm hundod hwn, a chyfanswm fy mathemateg yn Un,

cân fi, o'r gwaelodion pellennig. Tyrd, gymeradwy unben draw.  
Yr un ddu erioed a gerais, f'oenig fynwes o chwyrnu chwyrn,  
ond mawr yw anghenraid pawb am fyd ynyfyd o gydweithredol,  
swigod dros welyau, iachawyr rhythmau breuddwydiol i'w hwrn.

Fe gerais rif un drwy'r nosau-ddyddiau. Do, fe'th rennais, lluosogais;  
heb ddydd unol o dywyllwch heini, rhifais d'oriau'n ystrydebau, loer;  
ond oni ellir troi'r gwahân hwn yn undonedd o lofruddiaeth i lais  
a gyll dyn mewn carthffos wrth iddo gyfrif bysedd di-waed ei draed-oer?

Cloffaf i atat ryw heno, y Lleuad-oen sy'n fy fforio'n freuddwyd  
tan dwrian yn y gwely distryw i gario fy ngweddillion i'w claddu.  
Gwrthod 'wna Cwsg dy wahoddiad i farw i fyw; a deil i sarnu'r  
un yn ddwy freuddwyd effro gan lwyddo felly i'm malu.

## V

Fy hoff freuddwyd i yw breuddwydio fy mod i'n medru cysgu  
er mai rhyfyg anymwybodol yw licio clicio i'w grefft,  
gan na throf ond i gynteddau ffôl anhuneddol ar ôl ofer gyrrhaeddyd  
(o'r plwyf lle y dringwyf, drwy dwneli llwyd borfeydd) y llofft.

Breuddwydiaf am y gwynfyd o ddarfod i'r ymwybod heno hwn:  
daeth arnaf hiraeth plentyn am i'r nos aeddfedu, a'm geni'n wŵr  
a fedd ar aeafgwsg bob tro y cyffyrdda f'amrannau anghaeddig  
a chludo f'ymenydd tua'r gobennydd stond heb ondio â'i stŵr.

Ond ni ddysgaf ei beidio. Ni ddysgaf ddringo brig ei furiau moelion.  
Myn dwy freuddwyd effro ledus dros eu blancedi du-wyn.  
Ble'r af oddi wrth eu corddi? Ymhle y caf fendith i'm gweddi  
am drugaredd hun? Diolchaf am Un sy'n methu â bod ond yn Dduw.

Frenin breuddwydion, Lywodraethwr pyllau, Fforiwr ffyrnig adwy  
a Gweledydd gobenyddau na lonyddai dan un ffŵl erioed,  
yr Un sy'n rhoi negyddu synnwyr pêr yn gadarnhad tyfadwy.  
O! Tyn furiau fy anhun i waered. A chymhwysa heno fy nhraed

a mellithio'r rhannu'n ddwy freuddwyd i gerdded i mewn i'm tir  
yn lle un twnnel tawel, dim ond un, heb dabled yn drosiad ofer am  
loes yr awr, yr anghenraid gwacáu ar bawb am roi byd cyfredol anhydyn  
gerbron Oen, a fi'n oen rhwng glaw ac iâ 'fu'n fiawan am fam.



(ii) BREUDDWYD CRWYDRAD CWMWL AR GRIWS UWCH CEREDIGION

*(y freuddwyd ddi-hun gyntaf wedi dod)*

***(i) Mynd ar Daith I Yfed Trauma Wedi Rhyfel***

Y glaw a ddaeth. Dychwelai'n chwil  
fel hen filwr yn ei racs  
o Irác; ac mae'i ben yn llygadu  
yn syn yr hunllef yn ei bac.

Chwilio y mae'i glwt am gartref  
angofiedig i gynnal rhyfel nawr  
yng Ngheredigion. Mewn ymrafael lân  
rhwng difaterwch dewr

a'r carwr gwyllt, saif Cwmwl  
arfog, cyfaddawdus aflan  
wedi dod 'nôl i wylo'i eiliadau coll  
heb nabod y gelyn clên,

newydd, heb wybod ffordd y mae'r  
Saethu Cyfeillgar yn gweithio,  
fel glaw'n gusanau i'w croesawu  
ar Ffos-y-Ffin, gyda ffws a ffair.

***(ii) Y Cwmwl am Rowndio'r Pentrefi***

Dychwelyd 'wna'r Cwmwl i freuddwydio  
yn ôl ac ymlaen rhwng pentrefi  
wedi cefnu'n chwil ar Haf y rhyfel  
cymysglyd mewn tir twp.

Crwydra i geisio dod â gwynfyd Haf  
mewn sefyllfa ynfyd, ma's o freuddwyd  
yn ôl i leoedd na ddysgasant yn ddiweddar  
ddod â'r haul i drechu'r glaw.

A bwyda'r Cwmwl y gwynt i brancio  
ar ben dy ymbarél.

Yn nwfn ei fynwes dan ei gryd  
mae dŵr (neu gof) yn hel

cnùl anhapus. A hola'r trempyn  
o gawod mor gyfeillgar, 'Wel,  
heb-ei-nerth-ei-hun, onid aeth Medi mor flin  
(a'r dail ar ei fryst) mor ddel?'

Wedyn os cydia Medi yng ngwar  
Hydref, fe'i harweinia'n drech,  
wedi dod adref â'i freuddwyd ddelfryd  
i'w chwipio'n dipyn o sgrech.

Os naid diferion yn gymedrol  
fe gawn ei sbwriel tyner.  
'Cydia yn dy sêt,' brefa ei Aeaf pell  
o weld trawma yn ei ddrych.

Ond closia Irác i chwydu'r fath  
Gwmwl gyda dirwestwyr clyd  
Ceredigion er mwyn cynnal ei griws  
i anwesu'r flwyddyn i gyd.

**(iii) Bar Dŵr Glastwraidd y Trawma yn Nhregaron**

Pe bai'r glaw yn glastwreiddio'r  
llaeth yn unig, ni haeddai ddrwg:  
'byddai pawb yn brolio ymlanhad  
pe caent botio glaw fel hwn –

yn law sy am fod yn sych o freuddwyd  
yn gorfod stido bwrw rhyfel ar do'r  
llofft, mor lastwraidd â gwrtaith lleuad,  
heb ddim ond co' gwlybaniaeth.'

Ond nid digon i nofio fu tywallt  
dŵr i'r llaeth mewn elw di-gwch.  
Rhaid oedd gwerthu trawma'r gad  
drwy fater taer difaterwch.

Nid Tregaron a hufen ei glaw  
a gyflwynid yn Llundain draw,  
ond pobl yn drachtio, gartre, 'r gwag  
heb eu bod nhw'n meddwl busnes.

Pan gollwyd o'r galon apostol hedd,  
collasant y wlad a'i hoen.  
Daeth Cwmwl â'i Saethu Cyfeillgar  
i gartrefu ym meinwe'u croen.

**(iv) Bar Dŵr Amlffydd Llanddewi**

'Profi glastwr heddiw yw pob nofio,' chwaraeai clychau  
glaw Llanddewi. Eco'r gloch ydyw o'r oesoedd 'fu.  
Bu'r Dyfrwr wrthi'n rhuo dro drwy greddo'r dreflan  
famol hon, ond mae'i glaw hi erbyn heddiw'n amwys ddu.

Pwy oedd y rhain y bu credu'n hinsawdd galed iddynt?  
Dyw heddiw ddim yn cofio'u clywed nhw'n cadw cymaint  
o reiat ers meitin. Daeth eu heirch nhw'n rhyfel-debyg, –  
Dewi, Griffith Jones, a'r unig hoyw yn y pentref, –

cyflymwyd eu trê'n tanddaear, heb amserlen, ond yn stŵr  
gyda'r teithwyr a'u cegau'n llugoer mewn cerbydau  
drwy oesoedd. Ond aeth eu llygaid yn geuled yn eu dysglau dŵr  
am fod y grefydd lastwr am ddychwel mor relatifaidd.

Pwy yw eu heddiw hil yn y pridd? 'Rhyw bobl onest fân  
nad wylant am y ddeuoliaeth 'ddaeth yn ôl yn nrên Irac.  
Amlffydd mwyach yw'r Cwmwl cywrain drostyn  
– a hyn heb ruddin – sy'n unplyg ranedig i'n byd.

***(v) Bar Dŵr Llangeitho yn Caru Hunllef Anllad***

Chwareus fydd y meddwon hyn o Irac yn Llangeitho:  
'Pa relatifrwydd a lawia dros eu nwyd a thros eu co'?  
Yn lle cred clywsom y ceintach,' meddent wrth eu cownter,  
'cawn mwyach chwydu'n chwil gynnil hyd ein bro.

Megis y byth-oddi-cartref Gwmwl ar ein to  
yn sydyn a gerfia rychau i ymennydd am dro,  
a'r glaw a ailgudasai lwch, fel gwareiddiad i'n dydd,  
a greodd y llan, 'nawr a dyf yn angen o'r pridd,

gweddiem i'r llan hon heno fod yn lân, rhag  
bod 'megis rhai wedi meddwi' mewn mydru mud  
fel hen iaith union nas cynhaliem ar egwyddor  
Daniel Rowland, Pantycelyn, a boddi'u bryd.

A chymedrol wedyn fu colli cred Ceredigion  
dan ddŵr. Teneua'r bore'n nos tan feddiannu'r hin  
a'n trawma. Rhacs galarus a etifedda'r anaeddfed anghred  
gan bob plentyn mân heno o fewn plentyn hŷn.'

***(vi) Bar Dŵr Dadadeiladol Gwallgofrwydd Bronnant***

Beth a ddefnyddiwyd i olchi pob cartref yn wyn i ffwrdd?  
Yn yr hen amser ffraeth, Lledrod fu Lledrod, bron,  
unman tebyg iddi. Ond caed lladron dŵr o Blwmp  
yn blwmp o blaen; heddiw ble cuddiant? Cans heddiw,  
Cwyntri sy, ac ydyn nhw i gyd, yn eu Cwmwl ymerodrol.

Ceisiannt landro'r synnwyr, fewnfudol frain, a gloywi  
pentrefi, dim ond y glaw 'ddaw byth â maeth yn ôl.  
Diflannodd y tir a'r bondo mewn toddiant. Rhudd  
y glaw a fynnai sgwrio'r fro, â chlwytyn llestri  
a fuasai ar daith fudr. Hoffai ffrydio drwy gul

sianelau clustiau ac i lawr sawl gwegil. Diflannodd  
glawio yno'n gordial gwerin, bron yn chwaraele sgwrs.  
Tybed a gaiff led guddfán iaith o fewn y groglofft?  
Bellach, mi dreiglwyd hon, y dreflan ôl-fodernaidd  
yn ddarnau anghydlynol canol 'er-hedd-y-wlad'

ond nas adwaenai ddim ohoni neb heblaw  
diferion gwaed o gwrw ein dinasyddion newydd.  
Nid gwirion haeru i'r glaw lanhau pob un twll,  
tan buro ambell un i'r bae ynghyd â gwneud  
Bronnant bron yn anwir yn brifddinas i ddiflanrwydd.

*(vii) Y Gloch yn Canu ym Mar Dŵr Negyddol Eglwys Fach*

Suddwyd Ceredigion

gan gwmwl dyfal a olchai ar ein traws.

Golchwyd yr iaith: chwerwai ein llên yn ôl y sôn.

Mewnlifodd hanes fel pe na bai wedi bod,

a seiniai'i gnùl o gân o Gaerdydd i Fôn.

Cling! Clong!

'Dau farw sydd,' meddai'r hen fewnfudwraig o'i llan

mewn strïbed gwlyb ar hyd ei ffrynt yn ffraeth,

sŵn dafnau poer i waered ffrynt ei phais.

Hen sychder cnùl y gerdd 'dry'i marw'n llaith.

Clong! Clang!

'Ceir dwy ffordd i chwarae cwato yn y seler

tan wrando ar y crawcian uwch y to,' –

(yno chwiliai hon am ddyfodol i'w byd-blentyn

heb wybod yr ysbryd o hyd a'i hail-drôl'n fro).

Clang! Cleng!

Un yw mewn glaw a sancteiddia syched baban

mewn clwyf, mewn crefft. Rhydd olchad mâl

i lanc, a baich i Dduw. Ar gefn y glasier,

caria'r eglwys ganrif arall i lawr drwy'r anial.

Cleng! Clwng!

Arall yw'r llaw fythol na ddaw'n lân i ddyn

a nydda gred canrifoedd ymennydd-heb.

Pa fardd fyn warchod Cwmwl i'w chloi'n adfail cân?

Un ateb sy gan y ficer hwn heno: 'Neb'.

**(viii) Bar Gwallgofrwydd Aber-porth-Llangrannog a'r Bardd Rhyfel**

Hed! Hed o'r maes awyr i freuddwydio ystyr wedi dod  
â'r Cwmwl o ryfel i'th bin gan fod glaw'n llefaru  
mor bert am y dronau awyr uwch dy lith.

Cais y bardd ddiwyllio pob un ehediad plastig  
a chelwydda nad oes dyn mwyach yn ein hwybren.

Syml yw ei hinc i ddechrau: ei ddychryn o fanlaw moel  
drwy'r neb sy'n esgor ar neb ar fore di-hun.  
Wedyn, daw awyren â mwy na'n siâr o law,  
anhofia'r caeau sut i nofio. Diwreiddir  
gorwelion. Cyll yr holl fyd ei sglodyn o asgwrn.

Ond gwrth-ddweud marw yw cynneddf glaw a chloch-  
y-glaw drwy ddeffro blodau  
yn llygaid plant y llawr. 'Mi hedant fel plantos awen.'  
Ond tasgau difyw ydyw'r tasgu dwfn:  
cafnant rythm gwacterau wyneb sy danynt heb gnawd.

Dad-ddyniwyd Rhyfel. Draeniwyd y tŷ o'r synnwyr  
gan awyrennau. A'r tu allan mewn dannedd  
diferog myn y rhyfel fod yn drosrwr i gwmwl  
yr iaith a fwriedir i'w lawio'n anwes  
wrth i'n beirdd ystumio'n ôl eu hystyr dros y ffin.

A dim ond bywhau Affgan ydoedd bwriad  
y glaw. Ond megis drwy foesegu  
y bydd yr hardd yn troi'n anfoesol,  
felly metha'r bardd â sgwrio'r holl  
drawma syml a'u cymheiriaid laid ag odlau.

Er mai syched oedd breuddwyd y bardd,  
nid oedd ganddo mo'r angau Affgan  
angernheidiol i fywhau trueiniaid:  
ni feddai ar feddau siel yn ei gartref  
i wingo'i hedd yng ngwaed ei ryfelgar wely.

Canys arswydwyd ef drwy foes ei fysedd:  
cyrydwyd curiadau'n unsill. Mynnai'r  
glaw ddwyn pwnc o frain yn rhwnc y llain  
oddi tan ei law, eithr am fod 'na chwalfa...  
suddai'r fro'n ddi-dŷ wedi'i moderneiddio gan Gwmwl dibeilot.

***(x) Bar Dŵr Masnachol Ddifyrus Ceinwydd***

Hin Cei oedd y bôs. Ac os oedd hi'n bur gyfarwydd  
â glan y môr o'r blaen, masnach i gyd oedd môr.  
Bywoliaeth oedd bywyd. Bu'n ymarfer â'n diddanu'n  
baradocsaidd heb dipyn haul, yng nghiliau'r bröydd  
coll ym mhocedi pob cyfandir. Heddiw glaw  
a ddaw i wasgu'r ymwelwyr i mewn i'r siopau

a dylyfu gên. A daw â busnes wlyb i'n hysgafnhau  
yn rhan o'r difyrrwch, yn wrthrychol wir;  
roedd darparu glaw ar y naw o'r newydd  
ar y cei o fewn bicini heb gadw-mi-gei,  
yn ennill math o bwrpas i'r sir sychedig  
drwy gadw fföedigion arhosol mewn tafarnau.

Unwyd eu toddi â'r arian yn y dŵr.  
O ganlyniad, bwced a rhaw oedd eu cronfeydd  
dan fyrddau, ufudd ddiferion galar Cwmwl



o ddiwydiant gwacter i uno noethni croen  
cynhaeaf traethau, a chlymu'r môr a'r llen  
o wybren yn undod undon yn y glannau.

'Ond pwrpas eich glaw,' meddai'r ymwelwyr hwyl  
inni'i ddilyn oll: 'yw'ch gwisgo yfory'n Gymru  
sy'n allforio'i heconomi. Ac os na chanwn  
ditrwm-tatrwm allforio dŵr, allforiwn  
bobol i ddatrys tipyn problem enbyd ein  
gwahaniaeth llon yn hen batrwm undod undon.'

***(xi) Bar Trawma Aberystwyth, Wedi Terfynu Concro Irac***

Anfonwn y trawma'n ei ôl. Un o'r dyddiau hynny oedd  
pryd roedd glaw bron iawn â dechrau,  
yna'n peidio, cyn bron dechrau  
eto. Gynt, fe drôl'n ddigalon ac fe holai,  
'Beth yw'r pwynt? Does ar neb f'isiau.'

A daeth mwy o drawma i'r hin: cadd gartref stond  
yng Ngheredigion! Enill'sai'r glaw gryn bowldrwydd.  
Ac i bob golwg, yn ei mwclis hy heb lawer  
iawn o ffrog, daeth Merch y Tywydd  
wedi mewnfudo o gefn Cefn Gwlad  
i'n haddysgu ni am ei rhuthr a'i phwd  
â'i bysedd meinion. Dôl'n ddiogel adref  
yn symbol llon ar fap i sychu pen yn gorcyn.

Yr hyn a ddiogelai'r Cwmwl fu ein hanneall.  
Daethom â rhyfel adref i fynd â'r tywydd oll.  
Dyma hindda wedi cyrraedd, fel y bydd  
proffwydes yn Adran Tywydd y Brifysgol.

Ond hyhi a wyddai  
sut i roi glaw yn ei le: gwledydd baw  
oedd y gwledydd bach. A sgilgar  
oedd ei sgwriad oll. Hon oedd y diwedd  
ar beidio â diwel. Ymledai dros  
bob tir. Fe'i cyflwynai'r Ferch ef fel  
paragón puro gweiniaid ein dealltwriaeth, ac fel  
pe bai'n ei sefydlu'n wyddonol led pob calon,  
dôï'n ateb pêr i'r balchderau led ein ffos.

*(xii) Egwyl o Ffansi'r Borth*

Oherwydd bod pob murmur yn glust i glyw,  
mae'r môr a'r gors yn gorfoleddu yn ei gilydd.  
Oherwydd bod ei achos a'i fodolaeth nôl-a-blaen  
yn annirnad, rhaid i'r môr lefaru'r drefn

lle diflanna glaw. Bwriadwyd bae i fod  
yn stôr storïol, fel y gallai diod lledrith  
obeithio noddfa. Môr 'wnaed i ddysgu i'r Cwmwl  
hen odidowgrwydd wrth blygu hyd y tir.

Clyw! Clyw! Gwrandawn y briw a'r wylo wedi'r  
ddiod. Troes tir yn sail i chwedloniaeth Cwmwl  
trwy glywed chwerthin tonnau gan y criw,  
a suddwyd dan y môr. Hwy yw'r cuddiedig wir.

Gwarchedwir stori'r plantos coll odano.  
Caiff traethau esgor ar ein bachgendod llawn  
mewn tipyn pentref bawdd tan lanw'r cwrw  
o waelod Cantref Gwaelod. Onid iawn

fu coelio gydol traddodiad? Dim ond drych  
o bractis cusan i blentyn bach fu'r dinistriad  
gynt. 'Caewch y bwlech rhag y môr cyffredinol  
â phlant o glawdd. Oni thyfant drwy'r tywod crych?'

Chwardd glaw yn fwy na gwlyb. Diflanna ynddo  
ystrydebau diferog. Breuddwydiol y briwia'r brain;  
syर्थiant o'r boliau cymylog, nid yn rhy-ddig,  
dan fwgwd o nef pob llofft, yn grefydd gain.

Treiddia di i'r môr anhysbys. Ac ohono  
fe'n gwneir gan law Seithennin yno'n wledd  
a ofera o'r Cwmwl ar draws y fron a'r meddwl  
gan fwrstio'n loddest ffres o'r medd mewn bedd

bob dydd gan wirioni'n wynfyd am ein twf  
wedi lletya'n newydd ar fatras o Gwmwl clyd.  
Y rhain sy'n dswnami o lawenydd 'wêl y môr  
yn gusan mawr a rydd y nef i'r byd.

\* \* \*

Yna, ddi'r gerdd i gyhoeddi ei faint celfyddydol.

Dihangodd y Bardd Rhyfel adref i nôl  
rhagor o ynni i'w bin gan fod glaw'n llefaru  
mor farus am ffosydd. Cyfrifol oedd  
y Cwmwl am lanhau bro pob troad:  
fe'i haddurnai'r bardd ei hun â'i fydr.

Dymunai ddynoli'r steics o'r nen i'w cadw.

A chwenychai fomiau o dosturi.

Hyn a olchai'r trawma cyfeillgar yn ddrama o drawma

nes y byddai atgof gwlyb yn gerdd ar ôl.  
Golchwraig fyddai'r Cwmwl yn hwylio chwilio  
uwchben y sir er mwyn dod o hyd i hedd.

Fel hyn mewn glanhad o fyd, wedi dychwelyd  
bardd a gollodd ei freichiau mewn  
galwyni rhamantaidd syml – gan afael  
mewn pin â'i droed, eithr yn euog reolaidd, –  
edrycha ar y trwyn coch, edrycha ar y llithrad llawr  
a daearu'r Cwmwl, wedi mynd ar goll o'r byd

tan benlinio i offrymu'i ddagrau cryf di-hid a'i feiau.  
Offrymai'r deall a gydnabyddai fylchau mewn math o Ras  
a'n hataliai mwy rhag rhyfel. Fe'n tynnai rhag Cwmwl  
mor hen â breuddwyd dywydd a dyf o'n tras.

(iii) BREUDDWYD MÔN YN ANFON CELWYDD GOLAU AR BLUEN EIRA I WENT

*(yr ail freuddwyd wedi dod)*

*[Dywedai'n daearegwyr i'r ynys honno gael ei llunio gan iâ. Dywedai eraill mai Wraniwm a'i gwnaethai. Ond beth yn union a ddigwyddodd?]*

**(i) Yr Ynys a Grewyd gan Iâ**

Yr iâ a'i gwnaeth. Yr iâ yn llaeth a ddaethai  
oddi wrth y Fam i feithrin gwlad  
wedi holi'i chreigiau  
am ganiatâd i fwydo'r plantos.

Llanwodd ei gwyndra  
dir. Gwasgasant o'u bodolaeth, cyn bodolaeth,  
y bronnydd hysb na fyddent, gan rolïo'n fuan,  
pe gallent, y llaeth o'r Fôn hon ar deiars fflat

tua'r dwyrain llon. Y ffordd hen honno, dos.  
Go brin fod y Fam ei hun

wedi paratoi ryw lawer ar gyfer Gwent.

Sglefriaï'i diffyg bron

neges o du gaeaf ynys.

Drwy filltiroedd llithrai'i hateb o oerfel irfaith iaith

oddi wrth ei diffyg maeth ar daith tua'r Sowth seithug.

Canys ni bu'n hael ei hiraeth;

ac ni ofynnai namyn:

'Oes gynnwng ni ddigon o iâ i'n cadw ein hun?' ...

'Yr Arswyd! Ai felly y goroeswn?'

crynai sillafau Gwent wrth i Fôn anfon ati hi gelwydd.

Yr iâ a'i gwnaethai; ac wrth ei gwneud a'i torrodd.

**(ii) Y Geiriau**

Cyfansoddai Môn, ag inc gwyn, freuddwyd  
o eiriau eira. Ond isod yng Ngwent  
yn ddiwybod braidd, dan dreulio  
o hyd fel cernau'r meini, hwy ni ddeallent smic  
o'r hyn a chwilient am fod (yn yr hyn a fu gynt).  
Eu heiddigedd plentyn fu yno i fynegi'u hysfa:  
'Ymgomia O! Fôn, â'th epil coll yn gynnes. Tyn ni  
drwy iaith yn ein hôl i holi yn ffôl am ddyfodol.  
Paid byth â bod – dweded môr a fynno – inni'n ynys.'

A Môn a sgrifellai atynt — sillau o eira swrth —  
mewn Saesneg yn llyfrgell gyfan. Mil a saith can troedfedd  
o'r plu iâ llaeth a aethai o fynwes fain Mam  
hyd at draeth. Ond methodd â theithio ymhellach drwy'r iaith  
honno, wedi'i chosbi gan esgud ddiffyg mynyddoedd.

Ac ni hedai cryfder y llif drwy lyfnder plot breuddwyd  
ac ni hwyliai'r iâ dros fryncynnau tua'r taw.  
Canys roedd yr iâ hwnnw a greasai ein hynys i oes a fu  
heb ei nabod ei hun. Ac un yw sy am beidio â llifo  
eto mewn oes ddi-fu, ... dan yr iâ a rewasai mewn iaith.

**(iii) Y Llythyr am y Freuddwyd**

Felly'r iâ a'i meddiannai, a'i gwnaethai,  
hwn yr iâ yn llaeth Mam a ddaethai  
ar ffurf llith llythyr ar daith drwy ymennydd heddiw.  
Bwriai'i chenadwri drach ei gwar tra oedd ei theth yn glynu  
wrth ei chreigiau llongddrylliol o loer oer – yn eiriau o hyd,  
wrth sugno rhew angau. Symudai, hyd yn oed ar untroed iâ,  
er mwyn ymestyn i gyrraedd y ddiiden, adref,

o hen ogledd-ddwyrain ynys unig  
tua'r de-orllewin,  
nes mowldio ohoni gyhyrau rhiant rheiol i bawb,  
ac yna eu troi yn eu hunfan ar y traeth  
yr iâ cadarnhaol gaeth tuag yn ôl.

Fel yna heddiw yr anfonid mewn iâ un freuddwyd  
i brofi rhadlonrwydd tyst,  
un bluen o lythyr gwyn na fodlonai glustiau bro ddim 'ntôl,  
am daith fach annwyl arall mewn geiriau o'n côl i'n brain,  
ond a fethai â chyrraedd y de-ddwyrain a Gwent  
gan nad aeth.

[*Goleuadau Coch ar Bont y Borth.*]

#### **(iv) Y Bluen Neges Nad Aeth**

'F'anwylyd,  
Alla-i ddim cynnig geiriau, alla-i ddim cynnig ymgom-byw.  
Dim ond pibonwy bach o gyngor a gynigia fy heno hael.'  
Gyda phluen o ymdrech  
ag inc anweledig ar iâ diflanedig  
Môn a ddatganai  
i Went o'r diwedd: 'F'anwylyd wael  
Paid â byw yn nesaf at wladwriaethau mawr.  
Does ganddyn nhw mo'r ingotau cariad i ddarllen  
Cosofo, Tsietnia, Tibet, Biaffra, galwa'u cofrestr  
wag.'... Twysged o ferched heb freichiau'n rhedeg law yn llaw  
a'u croen absen yn byrlymu'n swigod nes i'w hoergri lefain  
i'n clustiau lafa a rolia: teiars byrstiol wedi taro gwactod  
ar fin y lôn a gollwng crwn i ddiffodd crwn babanod  
ar y ffordd garegog ddiddiwedd i lawr i Went...  
'Derbyniwn hyn oll inni yma'n freuddwyd.'

Caed camerâu cyflymdra diflino weithiau ar y lân i dynnu'u  
llun (gwena, freuddwyd)

wrth i'r gwynt gario'r neges iâ i waered  
hyd lan yr ynys.

'Paid byth dros groen dy grogi  
â mogi dan wlad fawr yn y byd bach hwn. Os oes rhaid,  
yna'r peth mwyaf myfyrdodus,' meddai Môn wrthi tan gilwenu,  
'yw mudo o hyd ...'

'I ble? Ai'n nesaf at wlad o lai? ...'

'Er dy

gwilydd, fwli! Ga-i fentro mai i'r blaned Wener uchod  
fyddai orau? Muda yno'r meudwy, muda drwy'r adferiad mân  
ei hun: ond gwylia'r haul, a'r un pryd mwynha'r meteorau.' ...  
*[Winciai'r camerâu cyflymdra'n araf deg hyd y ffordd i Went.]*

### *(v) Yr Inc*

'O.N.

Gwylia o hyd y Dwyrain acw.

O'r cyfeiriad hwnnw mi lwyddodd

meiledi Marwolaeth i anfon ei hiâ, a thynnu allan ddagrau-afonydd  
a ddylifai at lan yr ynys a'u brawddegau yn yr heno hon yn inc  
o fronnau gwastad matriarchaidd Alaw (sy'n wast)

a Ffraw (fel braw) a Braint, Grugyll, a Chefni — fel y cerddi  
y cefnir ar eu hiâ o ddafn i ddafn yn galed

i'r gorllewin gobeithiol. Dilyner felly ymlaen  
o gorfaf i gorfaf. Dilyner y diferion coch oeraidd o'r difaru  
a rowd inni erioed

mewn ymennydd, mewn mydr go gaeth.'

Felly ... ac nid felly ... dyna'r llythyr cyntaf ac olaf, nad aeth.

Ond pa beth a heuai'n gadarnhaol?



'Dyma ddefnydd inc go glwc yn fy llaeth.

Tua'r gorllewin, craciai rhew

y neges anwel-nac-oes o *brotest*, un neges faith ofer o faeth.

Llaeth fu meddwl ynys i'r môr oll, llaeth gan Fam  
y blingwyd ei bronnau o'u plu eira bythol ar draeth.'

Ac efallai nad yw'r ffrwyth o'r iâ ddim eithaf cystal

i'w anfon mewn dŵr â'r hyn y ceid eu *cadw*

mewn pacedi cau.

Efallai, pan gyrhaeddith y nentydd y môr,  
y bydd y môr ei hun yn sych grimp.

'Gwylia, da ti, yr iâ hwn, eithr gwylia di

heddiw drueni drennydd y gwylwyr sy'n segur, neu'n waeth.

Ond paid â dod y ffordd yma i gardota ar ran ynys weddw.

Ei neges yw cadw.'

'Cadw beth?'

'Dim ond cadw'r cadw. Canys ailadrodd wyf ac yw'i hetifeddiaeth.'

Main oedd y cyngor mwyn hwn ym Môn,

gan yr hen wraig hynod, yn un iâ a ddiogelid gan inc,

fel y cedwid i'r oesoedd a ddelai y cymorth na fu.

[*Goleuadau Coch ar Bont y Borth.*]

#### **(vi) Y Gwennwys yn ateb**

'Diolch yn dalpau, Mama, am beidio â bod.

Ond daethai'r Dwyrain yn hael yn dy le.

Rhy hwyr i ti, rhy hwyr y sglefriaï dy bluen neges

yn rhy araf deg. Ond na hidia mohoni, fanma,

Nid dig mohonom: nid iâ yw'n hwyliau dig.

Nid anodd, haul, yw caru hen wraig hyll  
o'r Gorllewin sy'n dêr ei difaterwch,  
sy'n ffenedig ynghylch segurdod  
yn ynys ein glân hunaniaeth.  
Mi ddaeth dy Orllewin atom â diogi doeth.'

Ond Môn:

'Nid anodd wrth gwrs fyddai caru  
mewn cerfiad o hen wraig iâ  
sy'n dwlu ar beidio â bod.  
Nid mamdra yw'r diffyg côl  
sy'n batholegol ynghylch colli  
cerddi bri oddi ar ei chof.

Ond welwch-chi, y Dwyrain sy  
ar fai. Hwy biau'n hagrach mâl  
rhag ein hamddifadrwydd dyfal.  
Daliwn ymlaen â'n negydd protestwyr triw,  
canys bai'r iâ  
ac ynfydrwydd amddiffyn fydd ein bythol gornel gadw.  
Clywsom chwiw mai bai pobl eraill oedd byw.'

'Gwelaist ti yn llygad dy le  
Ond peidier â'n gadael eto, epistolwr cu,  
heb inni gusanu,' meddai gwŷr  
glew Gwent tan chwerthin fel llygaid.  
'Mae'r wlad 'lawr acw'n  
glasu'n ewyllys had  
Adfyw  
drwy aberth afrad adenydd ein hadennill.'

‘Ni pheidiwn â pheidio. Mi gadwn i sgrifennu'r freuddwyd mewn iâ.’

'Dalier ati.

A phaid 'te â beio'r dwyrain sydd ynot dy hun.  
Paid ag allforio dy stori sterics heno ychwaith;  
prin, Mam annwyl, fod gor-angen llatai llaeth  
iâ: buom ninnau'n ymdroi gyda'n gilydd yn dy le.

Diau mai diogi mwyach yw allwedd absen,  
a diau mai croeso wyt tithau i ddiffyg clyw.  
Fuon ni ddim yn gofyn am ddim, Mam, namyn pont.  
Gwell inni adeiladu ein pont iâ driw ein hun.

Yn gu,

Gwent.'

[*Goleuadau Coch ar Bont y Borth.*]

***(vii) Adfer yr adar er gwaethaf llygredd amgylchfyd: grŵp Ail Iaith o Oedolion  
Gwent wedi ymweld â Môn, i ymgom wyneb yn wyneb, heb gael neb i ateb;  
yna'n penderfynu mai gwell cyd-siarad ymhlith ei gilydd.***

Ymunodd un dosbarth o adar o bell  
i daeru 'bydd' – cyn toddi.  
Adennill oedd eu tonfedd gofrestr  
heb glywed gan yr ynys ond 'bedd'.

Seinir yr enwau — ‘cornicyll’:

absennol, syr; ‘coch

y berllan’: absennol;

‘petrisen’: petrusir,

ond absennol. Chwilia'r

athro mewn perthi, er mwyn  
hel hil parsei perthyn, am  
yr enwau na hedsant ymaith gyda'r iâ.

Efryddion fu'r adar ofer; ond yn y gwersi  
canu, canasent hwy ddeall  
am wenwyn inc nas deellid.  
Udai'u harholiad yn llwnc  
ehedyddion. Chwarae triwant  
a wnâi bellach rai rhocesu pluog wrth  
i'r dagrau wenoliaid anelu ar draws  
wybren fel plaladdwr eu bywyd  
yn ymryd trwm eu gwerau iâ olaf.

A lwyddodd yr un i yngan wrthych lef?

Dilewyd lles amryw'r lleisiau.

A hyn fu'u haddysg: yr ennill  
drwy gynnwys ynddi affwys,  
y gwybod pa beth nas gwnaed  
oblegid methdaliad gwrtaith ...

Wele ysgol y budd a geid heb anwes mwyach  
a beddfaen y neb a ddaeth ymlaen yn y byd,  
ond a gas ffyniant trengi gyda'i gilydd.

### ***(viii) Y Wers***

Y Wers Gyntaf oll fu dysgu iâ  
mewn gwely. A dyna fydd ei wers  
i ni ym Môn. Fydd dim darbodaeth  
i adar prin heb adnabod  
y tywyll a adeiladai ohoni hi y taw.  
Nid oes ehedeg 'nôl drwy wybren heb

sylwi bod wybren arall rywle ar goll.  
Ni ddysgir cân drwy'r un mudandod chwaith  
yng nghartref Mam  
sy am roi llaeth iâ'r hesb  
mwy nag y bydd y 'cadw' 'nawr yn cadw dim.

Sut bynnag, daeth y dosbarth ifanc  
o Went i flasu'r adennill  
adenydd 'geir gan adar tan yr iâ.  
Yna, torrodd yr ynys wynt  
(drwy gamgymeriad).  
Wedyn, o'i chlywed canodd eu dosbarth draw:  
'seinier eto'r gofrestr gartref  
i adennill hen ganeuon fel hon,  
i glywed pa rai 'aeth ar goll.'

'Yma' daw gwaedd cornicyll,  
'yma' fydd coch y berllan.  
Diolch i'w hesgyll mân  
a'u hannibyniaeth hen  
clywir y gloch eto tua Gwent:  
'Ni cheir yn unman laeth  
i sychedigion sill  
onis rhoir drwy'r wybren yn aer i'n hysgyfaint.  
Pa faint o fyw gan aderyn yw cael bara  
heb golli pill?' Dyna, Went fach, derfyn y Wers Gyntaf.  
[*Goleuadau Coch ar Bont y Borth.*]

**(ix) *Yr Ateb yn Seinio***

Yr Ail Wers gan iâ yw teimlo'n brudd  
dros golledion. Twymlon yw'r teimlad;

ond ewyllys yr ynys sy'n oer.  
Fu dim angen i Went ddysgu wylo  
ar ôl ei Mam, am ei bod hi'n gwrthod  
ar egwyddor oer beidio ag wylo. Wylai'r naill  
ei balchder byddar: wylai Môn hithau iâ  
am na chlybu'r ynys fawr  
namyn trwst un mynydd iâ trist yn rhwbio'i hochr sych  
wrth suddo yn yr inc, yn ei herbyn hi. Fe betheiddiwyd  
ei gweddill rhag iaith.

Y sawl, nad oes ar ôl ganddi erbyn hyn  
namyn pethau, yw'r sawl sy wedi llwyddo  
i fod heb fod, a'r diddim yn dynn fel gwelltyn  
rhwng ei gwefusau'n ymlusgo i'w wâl. A'i cheg  
heb dafod eisoes, rhwyga o'i cheg ei synnwyr  
hefyd. Rhwyga eto'r gwallgofrwydd. Yn hyn,  
ein cariad at lafar mewn llwnc sy'n tagu'r  
dweud, sy'n mygu anadl ac yn lladd y chwyrnu,  
ac sy'n peri iddi yn y bôn heno ryw led gysgu.

Y truan diddillad, sy'n oered â had ymennydd.  
Collwyd y llais hyd yn oed i gynnal creulondeb.  
Simsana rhag symud, gwaedda heb yngan da bo,  
tan lwytho rhyw bethau yn Beth...

Y Drydedd Wers heddiw – breuddwydio.

**(x) Môn yn Fyd: Môn yn Fud**

*Dim byd o bethau, mewn geiriau na fedrir eu sibrwd,  
a'r holl bethau hynny y gallesid bod wedi'u dweud,  
hwy yw'r bydysawd o ganrifoedd mud, daear a gelwyd*

at ei gilydd drwy'n pennau i roddi'n gwareiddiad na  
'allai fod yn eiddo i nebun, neb namyn stiwardiaid gwagle  
i flynyddoedd Môn ei fenthyg. Yn awr, aeth pob darn yn sbri

*i estron, a'n tadau a'n mamau heb bwn. Crwydrwn tan  
eu chwilio, ni'r rheina na lifa mo lafa'u clyw mwy  
i'w hymchwil ar i waered, am hunlle heb unlle i fynd,*

tan ddisgwyl negesydd newyddion na ddaw eto yma.  
Gan neb nid oes ynddo'i hun bethau i'w cyfri'n fodolaeth.  
Cred ei hun sy yma'n dyst. Ar hyn y clyw clust y plasty

*Ile y traddodid o do i do dan awel a bery yn bêr.  
Rhaid cyrchu i ddimensiwn cariad am ddychryn felly,  
y ceisiwn ei amau, yr hiraethwn am beidio â'i gael:*

danodd y'i coledawn yn anfod, gyda hael ffarwel angof.  
O! fel y'i cadwn draw i'w hanwylo â'n bysedd drwy  
beidio. Yma mae'r peidio yn wreiddyn i ruddin. Llawn

*beidio yw'r diwedd a rowd ynom i amau dibynnu go gu.  
A chofleidiwn ym mreichiau holl Ego'i fewnolddibynnu  
tros-ben-llestri o heini... Canys hynna a'n gwna'n rhagosodiad.*

### **(xi) Drama Cwsg**

Mewn cwsg trawsnewidir popeth. Chwaraeir bywyd.  
Y prolog yw'r peth nad oes modd ond ei dybied dro  
ymysg ein gilydd heb wrthdystio. Y dewis yw  
nad oes ond rhagdyb. A'r actor amhosibl yw'r  
hyn a feddylir dan glawr y gwely mewn ysfa hurt  
am yr hunan sydd mor ffiniedig, mor flinedig

mewn hyd a lled a dyfnder, heb bosibilrwydd  
i brofi dim. Y Dim wedi amau'i ddiddymdra  
a gofleidia ddyn. Hynny ei hun yw'i obaith. Y prolog  
iau-na-gwawr gorfawwl na ellir dibynnu arno, —  
hynyna a ddewisir, gan iâ a esblygodd yn ddŵr.

Mor felys yw pob dafn sy'n digwydd. Er mwyn cael trefn  
i'w esblygu, rhaid fyddai i'r ail act berthyn.

Hyn sy'n bygwth y sawl lle mae'r plot, y bod-ar-ei-ben  
ei hunan goruwch-reswm sy'n caniatáu rheswm inni,

a'r rheswm sy'n gwybod am freuddwyd fod rhyw yfed draw.  
Ac yno, yn yr absenoldeb, yn noeth, yn gryndod, y sgwrs

goll; fe chwilia'r diddim dynol am y rhoi a ddaethai i fod  
ac yna drefn cyswllt rhwng Môn ac Arfon, ac yna —

wel, gwyddoch weddill y stori lom wedyn: credwn  
unrhywbeth yna ond ein bod ninnau rywle'n cael byw.

***(xii) Perthynas Ynys Llanddwyn***

Ym mhellterau rhy gyraeddadwy

yr Ynys, ceir yr ynys.

Bydd y corff yn dadelfennu,

yn cafflo'n gareiau

cnawd, yn pydru a'r cymalau'n llacio,

y cof yn briwsioni'n rhydd,

cyfnodau'n diflannu, y mae'r hunan hwnnw oll

yno'n holi'i ffiniau ei hunan, a allai

fod yna sws yno o gwbl.



Ailgychwyn fydd caru, oherwydd fy mod yn dy  
fwytho, fy ngwlad  
galed, fe hoffet ti aros yn  
oddefol a gadael  
imi grwydro ar hyd dy hyfrydychau  
pren. Oblegid  
am ymateb, tebyg wyt i frathiad rhewgell  
doredig. Iaith fu'r wlad, do; ac felly  
alltud iâ, dyna'i thir. A'r cariad  
yn unig a'i tawdd, fy Nwynwen.

Yr Ynys sy'n caru nes esgor  
ar ddarn o'r iâ a dorrodd i ffwrdd,  
yn soffistigedig ei het,  
yn gosmopolitaidd ei sodlau, teimla  
hyd at gaeau Berffro  
ei bod wedi'i neilltuo i Lundain  
o hyd. Hwyllo hyd y strydoedd  
acw 'gâi i werthu'i chorff. Cynigiai'i theth  
er mai gwasgu ceiniog yw bwriad ynys.  
Âi hi ddim yn bell yno heb gariad.

Llundain oedd y genedl na fu, ychwaith.  
Denai deithwyr o Fôn.  
Cyn bod Llanddwyn, ceid hil anffyddlondeb.  
Am hynny mwy, annigonol fyddai'r sôn.  
Ond wedi'r rhewi aliwn, y daeth y caru  
na fu, a fu'n freuddwyd  
yn fychan, yn gwaedu, yn plygu er mwyn i'n llais uchel  
guro ar ddrws rhewedig ein cariad – hen Ynys Drais.

**(xiii) Holiadur i ddysgwr mewn oed o Went**

*[Gorchymyn i Berchnogion Caethweision o Went: 'Every slave caught speaking his native language shall be severely punished. Where necessary, removal of the tongues is recommended. The offending organ, when removed, should be hung on high in a central place, so that all may see and tremble. ]*

Beth 'wnei di ddysgwr â llond lorri o ddistawrwydd?

Mae'r ffordd i'r mynydd ynghau.

Gofynnaist ti am gwmni, ond tywalltasant

eu hunigrwydd hir ar fin y wawr.

Ffoesant rhag y sawl sy'n dwyn yr adnewyddiad:

ddysgwr, dihunwr wyt

wrth dy fod. Yr unig ffordd i ofyn

yw mynydd. Ac etyb hwnnw â gormod o îâ.

Paid â disgwyl dim gan encilwyr proffesiynol.

Siarada â'th gilydd.

Wyddost ti byth ble mae bore da'n

gallu arwain gyda châr.

Roedd ambell ferf a ddysgaist fel pe bai'n

gwybod amser dyfodol

yn hafal ulw i Lywelyn. (Arhosant hwy

yn eu cornel.) Prynawn da

a'th ddedfrydodd i ewyllysio codi

o'th wirfodd. Fydd dim hysbyseb. Felly, nos da.

Herciaist o enau i enau i ddringo aeonau

heb ddim o'u cymorth nhw.

Yn bresenolion sy'n preswyllo mewn absenoldeb,

ni chaniatânt i sgwrs am dw'

gwrdd nawr â neb. Mae doe eu hen esgeulustod

yn rhoi i gadw'u diferion er d'yfory.  
Unigrwydd yw cyfaill gorau pob pererin  
mewn gwlad sy'n dianc  
rhag gwlad. Pam na siaredi? Am mai iaith  
gyfrinachol glwm hendaith fu

gan hen yd y fro sy'n cuddio'u cwilydd du  
mewn llawr. Hwyt-hwy yw'r hen Gymry fu  
na weithredant fwy am adennill Cymru eto. Rhwbiant  
'gadw' yn drwynau yn y tir,  
a dibynnant ar awdurdodau, heb chwant  
i wneud 'ennill', – drostynt eu hun, ers talwm, – dân.

Un cynnig a roir i bob cenedl, ac wedyn ein breuddwyd  
i Fôn. Yna'r cwsg a ddaeth, a'r cwsg a wnaeth  
ddelweddu.

Sylwer ar eu cerrig beddau eisoes yn ffrwythloni'u  
llonyddwch. Fydd fawr o ddim lle  
i dywallt rhagor gan fod y mynydd a'i wynt  
a'r iâ, a fu gynt ar agor, a'r siarad yfory ar gau.

Dihunodd heb beidio â'i breuddwyd. Ond yna rheddodd  
i ailgydio mewn cwsg. 'Boed eich traed trist,  
bydded eich cist waed, Went, oddi yma mwyach  
yn olion o eiriau eira wedi'u torri.'

*[Ysgrifennwyd mewn pwl o iselder wedi diffodd y goleuadau achlysurol am byth ar Bont y Borth, ac ar ôl methu â denu rhai o arweinwyr Cymraeg yr ynys yn benodol (yn geidwaid ac yn wrthdystwyr) i sefydlu grŵp (neu grwpiau) i ymddiddan â'r dysgwyr. Drwy drugaredd, llwyddwyd ychydig yn ddiweddarach gan fewnddyfodiad o ddysgwraig, ond heb fod yna ddigon o'r Cymry Cymraeg ar ôl i'w hatgyfnerthu o hyd. Yr iâ a ddaethai.]*

(iv) GWEDDI NOS

*(Ar ôl wythnosau o anhunedd)*

Yn awr mae'r oriau'n ddu:  
Hunllef unigedd yw'r cwmni sy  
Yn lle'r cyfeillion ar bob tu  
A giliodd i gladdogof hun.  
Nid oes ond Un sy'n cadw'n fyw –  
Dduw ar y croesbren, Groesbren-dduw.

Gwywodd y siarad. Clyw,  
Mor unig yn y twllwch yw  
Fy ngwely; geiriau o bob rhyw  
Sy'n feirwon wedi diffodd dydd.  
Un sŵn ysydd 'rôl mudo'r ffair  
Yn glws i'r glust, a hwnnw'r Gair.

Gair mawr fy Nghrëwr, hwn  
A luniodd wead cread crwn,  
A'm lluniodd i. Drwy'r nos mi wn  
Y sieryd eto gysur ffydd.  
Effro lefarydd, dysg i mi  
Heno, Dy was, gysgu i Ti.

*[Dyfyniad allan o'r gyfrol Wyl Ifori.]*

PORTREAD O ATHRAWES GYFANSAWDD

*(er cof am Ysgol Llangefni ac wedyn)*

1

Unwaith yn athrawes,  
ddwywaith yn athrawes,  
a'r drydedd waith try hi  
yn bwnc astudiaeth  
i'r sawl a ysbrydolwyd  
gan yr hon a gofddodwyd  
yn ddedwydd ar fôr f'ymennydd yn ystod ei gwersi.

Efrydu 'wnaf  
fod-gymar hyd y godreon –  
ei 'Daearyddiaeth' a'r moroedd rhyngddynt –  
morhychod  
ac eogiaid twt ar daith –  
drwy'r tonnau ffyddlon –  
bod dieithr imi yn ei harbwr net annatod –  
astudio – oherwydd  
hoffi – ei 'Hanes' encilgar  
lle cân eiliadau y glannau – neu gogio'u gorau  
i byncio  
ar adain a thybied yn gofus  
mai digymar fu d'astudio'n gynnar  
nes nad wy'n synnu – ond 'wastad byddaf yn hurtio –  
pam cyrhaeddais i  
mor hwyr i'r wers nesaf mewn llong – pa reswm  
anghofio dy 'Ffiseg'? Am un eiliad rad

ddihawlfraint



Pan dry athrawes

yn bwnc fe dry'n Athrawes.

Tydi yw'r holl wybodaeth hon –

'all trwyn ar y maen dirnadol

ei goddef – mor anferthol

yw'r

riffiau i'w phlymio –

morio profdiwbiau trofannol

a'u 'Cemeg' drwy'i chanlyn 'wna f'anwybodaeth siŵr –

canys Amser 'Chwarae' yw teitl gwylaidd

y radd forwrol hon ym Mhrifysgol

Perthynas – daw chwa o'r gadair

a hyfforddiant doeth

yn rhagair i gwrsio arall –

mi gasglaf mwy

gofleidiadau a'u hangori

yn f'anamgyffrediad 'Iaith' –

a'th lygaid dysgedicaf yn llygad eu lle

hwrê-basgedig wrth suddo i'th holl ramadeg

gyda ffresni Titanig ar dân

dros gelain o galon –

fel y'n hyfforddir ni'n

weision cabin ardyst i Achubiaeth wedyn –

dan ei môr nen dysgwn.

Heb stormydd am ein gyddfau

moriaf drwy fy nhwpdra

gan lynu'n wyllt-wiw wrth y llyw  
dry hwyl y ddawnsfa,  
fel ystyron beirdd yn fforio  
a draws llanw am seiniau,  
tan ddal y parcel o hyd pan beidiai'r 'Miwsig',  
sy'n blatiau titonig o donnau.  
Dy ysgol o berson a'th diwniau o dân,  
a'th gân heddiw 'fu'n gwau  
brodwaith o eigionau wybren  
dros ynys fis-mêl, Môn.



## HIL-LADDIAD DRWY DDYSGU HANES LLUNDEINIG CYMRU

Na'r llys yn Llangeitho  
Na ffroth Aber-ffraw,  
Na'r blinder o wybod  
Am lowyr didaw

A gwadodd a nadodd;  
Ddirnadodd ddim byd.  
Er gwybod hel popeth  
Am garthffosydd ei stryd

Na'u hamhosibilrwydd  
Diwylliant coeth,  
Na'r dilyw diwinyddol  
Dros lawr mwynfeydd doeth,

Yn Croydon. Fe dyngai  
Na chaed yr un fro  
Ond ymwelwyr o Essex  
Ddaeth yma o dro

Ni ddigwyddodd un werin.  
Difodid pob ôl  
O gynghanedd unigryw.  
Trowd Gorsedd yn stôl.

I dro i'n gwareiddio:  
Artistiaid di-brin  
O Gaerlŷr a Chaerfaddon,  
Torwyr gwallt o King's Lynn.

Heb eni mo'r Celtiaid  
(Naw degran o'r byd)  
O blaid gwanwyn anadl  
A'u hadau a'u hud,

Hepgorodd ni: parodd  
Inni beidio â bod  
Drwy sefydlu 'na thrafferther'  
Iddo'i hunan yn nod.

Mewn cegin, – distadledd.  
Eu henw oedd Coll.  
Eu concridd oedd concrwr  
Drwy'r gweirgloddiau oll.

Ein peidio oedd hanes,  
Ein gostwng oedd gwir.  
Diflaniad mewn gwledydd  
Fu'n tyfiant i'n tir.

Rhyfeloedd fu Prydain.  
Ymestynnent o'r de  
At Hadrian. Doedd ganddi  
Ddim clem am y lle.

Ni chlwyfwyd na meddwl,  
Cymdogaeth, pridd, gair,  
Na dewrder tawelwech  
Nac urddas cân ffair.

Ni fuom o gwawl,  
Ni chafwyd un iaith,  
Nid hanes oedd ystyr,  
Yr amddiffyn maith.

Ni ddigwyddodd iod yma,  
Ni chaed yr un tân  
Ym mol cysglyd Arthur:  
Wele'r ogof yn lân.

## HEILYN YN AILYSTYRIED

[*Cofiw'n chwedl 'Branwen Ferch Llŷr': Ar ôl drygioni Efnisien, a'r gosb ar Franwen, a dial Brân ar Iwerddon, yr oedd heddwch yn amhosibl. Felly, dinistriwyd milwyr Iwerddon a Phrydain bron yn llwyr. Ond dihangodd saith gŵr. Yn eu plith, Heilyn fab Gwyn Hen.*

*Gorchmynnwyd iddynt dorri pen Bendigeidfran wedi i baladr gwenwynllyd ei ladd. Yr oeddent i fod i gladdu'r pen yn Llundain. Buwyd ar gylchdaith gyda'r pen. 'Ac yng Ngwales ym Mhenfro y byddwch bedwar ugain mlynedd. A nes yr agoroch y drws tuag at Aber Henfelen, ar yr ochr sy'n wynebu Cernyw, gellwch aros yno, a'r pen yn ddilwgr gyda chwi. Ond o'r pryd yr agoroch y drws hwnnw ni ellwch aros. Cyrchwch Lundain i gladdu'r pen.' Cafwyd gwledda a llawenydd hir yng Ngwales. Eithr un diwrnod denwyd Heilyn: 'Gwarth ar fy marf,' ebe ef, 'onid agoraf y drws i wybod ai gwir a ddywedir amdano.' A bu'n rhaid wedyn gyrchu Llundain.]*

### I

#### **Ymryson yr Aros a'r Mynd**

Câi Aros aros... Oedi fyddai popeth, yn fodlon  
bod yr ynys hon yn gyflawn – onid Heilyn:

petrusai hwnnw rhag ymaflyd yng nghyfrifoldeb  
y profiad hwn o rin-heddwch wedi rhyfel.

Codai'r ffŵl i lan ei fagiau llawn mor flin,  
a'u holl filltiroedd wedi'u galw'n allt:

yn lle neilltuo'i dipyn llanw i garco ynys  
gan ymadael â phob hanes, dewisai groesawu

symud gwyllt, fel lloer gan ysgafned troed,  
a'i holl filltiroedd wedi'u galw'n allt... Yna, paid.

(Dwl iawn fu i'w chwant am 'bant' ddadwisgo dôr  
ar led. Onid melysach dihangfa i'w freichiau agor

i'r eigion o odidowgrwydd yn yr aros?  
Dod i beidio â mynd oddi yno na thrachefn

i ryfel oedd y rheswm dros ddewis yr ynys.  
Agor fysai'i haros a erys yn afr ar graig  
yn barod i ddeintio mil eto o flynyddoedd.  
Ai atyniad amgen na hyn 'fyn ethol bedd?

Credai glaswellt na allai Dyn ei hun weld cell  
gallach na'r hyn a ganiatéid gan Aros.  
Nid oedd gan dai yn Llundain wynfyd gwell,  
fwy na chan dorf Iwerddon, yn gêl i'w galon.)

Ond yr holi oedd hawl Heilyn, i gael ei hwyl.  
Ac yn groes i ddeddf Aros, heb ffin i'w atal dweud  
yn nistawrwydd paradwys, myn Ymofyn iddo ef  
ollwng ei faw ar dawel, ar draws hen awel iaith  
a'i llonydd a thaflu hen oriau rhydlyd rhod  
eu hetiau i'r dyfroedd... Rhaid Dyn, – yr un a â,  
na theifl yno undim arall ond llwyaid o lwch  
i lygaid ei lysnafedd ei hun er mwyn cael dinas, –  
yw torri deddf y dynfa am Aros. O wybod trwst,  
daw cynn ar flaenau'i draed wrth ysu ffordd.  
(Paid byth â chredu trwst pan ddaw gan draed.  
Gwahardda hwy. Canys magant Ddyn i fynd;  
a'u hanufudd-dod a'i cyll... Yn hyn, pob gwyll yw'u hond.)

## II

### **Ynys y Tawelwch yn Denu**

Ond, tybed oni all newid bwriad dy gynghori

i aros, a thyneru ffordd arall i goleddu hedd?  
Tybed oni fu gŵr di-stŵr ac un gwybodus  
gwyn gynt yn anadlu isod yno ym Mhatmos  
i anfon y llonyddwch hwnnw atom ni  
drachefn fel y caem yr oriau araf hyn a erys?

Ac onid oddi wrtho ef, a'i hedd, y llithrodd atom  
aroglau-fel-hyn ar donnau? Oni ddaethant  
ar gefn anadl tua'r glaswellt ar ein hynys,  
tuag atom i Wales a chanddynt un agor hir –

un araf ddydd heb-ailadrodd-byth-ei-oriau  
ar gefn y tawelwch aros, yr oedi ir  
ysgafn wrth estyn canghennau gadwyni clwm  
mor araul fendithiol, – a heb ddim gorgynhyrfu  
chwaith, sydd yr un â'r mor enaid-syber hyn  
o donnau araul ddof? Oni ddaeth yr oriau  
o Batmos at Wales gaeth? Ynghyd â'r naill  
at y llall, ni chariai'r olygfa-ddrws-heno ond  
harddwch sy'n gwbl amddifad o bob rhyw syrffed.

Cadw yw ystyr Gwales. Y Cadw a rôl Patmos.

Yng nglaswellt Aros, aeth gwlad yn dwf a oedai  
yn ystyr am bethau bach, yn oediog heb  
wylltu i fynd yn bethau mawr. Ac oni fu'r  
cludo hwnnw mor unigryw? Doent, – doent ag ysbryd  
yn y diwedd, yn llond eu pocedi o ogoniant  
fel, ar ei ôl drwy'r drws, yn araf deg  
y ddi Ioan drwy deyrnas nef, a phopeth sy'n werth  
ei gofio'n dod yn orsedd ddi-Lundain yno,

yn addoliad weddi. Trôi yno fref tangnefedd  
sydd mor gartrefol mewn tonnau mân fel na allai  
ei gyfrif yn furmur, na chyfrif faint ychwaith  
o wlân gwyn yno sy'n llen ar ben môr. Yno  
âi Ioan Fendigaid i ddangos golau gwyn oedi  
(nid i fynd); ond y lloer honno a chwythasai  
y môr a'r mawredd i oedi yn gylch i'w fyd,  
fel yr arhosi mewn gwell Dinas nag yw Llundain.

### III

#### **Ond, Oedi**

Clyw, Heilyn, alwad y llwybr hwnnw'n ôl  
i rin y tir. Onid tynged y gwir yw aros?

Clyw forgrug yn anadlu yn y gwair.  
Ceir rhyw fwynhad ynddynt o wrando gair

o'u hanadl yn daearu am ystyr eto  
heb ysgyfaint trafferthus. A rhoir

gan y glaswellt ar fryncyn Gwales  
(rhwyfau danat yn yr haf tyner,

mewn llyn taw digon-o-amser)  
gyfle iti wrando ar y rhai mân yna

eto yn ail-anadlu. Wele heb hela'n  
frysiog flys henaint heno yn y gwair

heb gwestiynd chwaith, y didaith  
bod yn anadl sy'n barod i orffwys...

Ynddo, gwna unrhyw beth i  
ymaflyd mewn tinc tangnefedd.

Farwolaeth, pam wyt ti'n achwyn?  
Oni chest weddilyn o ddiffyg cynnwrf?

'Mewn gwair, dwyt ti ddim am gyffroi,'  
meddai'r golau ar galon... wrth ei gelu.

A hyn oedd y cyngor a glywaist gan y dwfn  
cyn clywed atynfa dreisiol ofn y llawr.

#### IV

#### **Tawelwch yr Ynys**

Mor anadl yw heddwch. Amheui di hen amau.  
Chwilia bob cornel o'i fyd, ni chei wrth agor dôr  
onid hau gwanwyn dŵr a'i goegi stŵr  
mewn tangnefedd.

Felly, est ti ddim yn llwyr. Aeth y pen ar ei ben ei hun.  
Amdanat ti, y cyfle eilwe i ailfedyddio gartref  
a'r tawelwch oedd ailbwysu'i laswellt  
yn atgofion twf.

Ail-chwaraeaist ti'r ddrama gyn-ddewis: yr wyt ti'n  
cyfarfod drachefn â dethol air yr alwad,  
ti a hadau can y môr a'th gydlynu chwant a fi,  
a'th ynys,

fel yr estynnodd ef ei law, fôr hir,  
ymddeti'n faban di mewn dagrau gwyn  
dros d'ysgwyddau llugoer a'th esgeiriau creigiog  
i eni eto, yn ôl.

Canys arhosi di gerllaw'u heira tawdd,  
gennyf i y cei'r iâ oesol had o'r eigion hwn  
sy'n dderbyn o'r llawr claeur,  
ac ynddo anfodlonrwydd ond i ddistaw aros.

Ac os cyffyrddwyd â'th groth, ddaear ennyd,  
am dy fod di mor fenywaidd,  
esgor a wnei di oblegid na symudi  
fawr ond swildod wrth iti dy roddi di dy hun.

Mi wnaed dy ddagrau gorau fesul un  
er mwyn ail-ddarganfod cariad  
caethangerdd dy dir Cymreig  
er mwyn i'th lwnc fod yn fôr ymserchu,

er mwyn esgyn gwefusau ffarwel a droes  
yn ôl yn groeso mor iachus  
yn eli'i glwyf. Yno ir fydd  
ailsibrwd difarw, dro, air dy ddadeni.

Ac fe'i hailystyriwyd oll – yn wir.  
Yma ceid cyfan cyfoes Gwales wen,  
yma ni chriai'r caru; ond bu un  
tu allan yn dy dynnu'n ôl i mewn.

Ef hefyd yw'r ymyrrwr mewn moroedd,



i'r ddeuliaeth 'fydd led eu hanes  
yn cadwyno'u hoesoedd am dy wddw'n  
sancteiddiach heddiw, arallach o'r diwedd yn dy gôl.

A thefli holl amser ei hedd ar led ei lawr  
i'r sach (fel y bydd canrifoedd drwy gydol  
ein cyfarfod). Fe ddoi i'r casgliad nad  
oedd hafal i ynys i ti d'hun ei datrys yno,

a'i datrys drwy beidio â mudo at ymadael.  
(Y sawl sy'n ddall i ddoethineb a gaiff fynd.)  
Ond erys, ar gael, y Graig dan rin yr ynys...  
(Nac ailystyria ddwywaith. Cest gôl Arhoswraig.)

## V

### **Y Cyfrwng yn Erfyn ar yr Iaith i Beidio â Mynd yn Ôl**

Wrth ddychwel o Lundain gadewi'r Pen yn ôl.  
Yno bu'r Cyfrwng yn pwyso arno i gau ei ben.  
Yno, câi fod yn Ben pe peidiai â dweud. Y Cyfrwng  
a wyddai orau. Roedd Iaith dan len. O'i herwydd,  
ni ofynnai'r Cyfrwng acw ond llond dwrn  
o geiniogau, fel mân eiriau llwch y llawr  
yn dâl am heddwch.

A gollaist ei Ben gan gaethwasiaeth a lladrata?  
Fel Cyfrwng ni allai esbonio pam y câi neb arall fod.  
A'i ran-ddeall wedi'i dileisio drwy drais, o'r tu isaf  
dôl'r anweledig Loegr (nad oedd arni fai am ddod  
atom), a'i haelfrydig hedd mor blwm fawreddog  
i gripian, a llamu yn llym ei grym yn ôl ei nod  
i ddwygd ein dewis.

Un peth nas gwnâi y Cyfrwng fyddai cyfryngu.  
Oherwydd maint tybiedig, neb ni ddealla'n Hiaith, y fach.  
Amryw nid oes. Heb estyn ond hwnt i'w gartref,  
un ydyw'u pawb i'r Cyfrwng. A'r hunan yw'r un  
bob amser mewn Rhyfel. Hyn sy'n diffinio'i lun  
clawstroffobig a'i ffitiai: mor hardd i Gymru fyddai urddo'u  
Cyfrwng hwy'n Nawdd Sant.

A'r Gymraeg hon wedi'i hurddo yn nillad ei Phen,  
heb ei dirnad tu hwnt i'r sgwâr ar bwys Sain-Steffan  
i'n hatgoffa ni fod Cyfrwng ar gael, neu ynteu i ddatgan  
ein noethni moeth, ac i holi am risiau dianadl.  
'Os caf innau gadw dy ben, cei gadw dy galon,'  
heriai'r Cyfrwng rhugl ei rhaglen hi heb amgyffred dim  
oll onid smic heb ben.

Er i'r fach honni'n fyr ei bod hithau'n fod ei hun  
drwy ddewis nad yw, daw'r Concwerwr druan yn Un  
ar goll, yn lleafair Plismon, ar Blaned na weai ddim  
ffurfafen, yr Heb Wybod anferth; ond ei edafedd  
o anneall cyffredin, mor hoffus o naif ei laddiad.  
Nid oedd ond am fod. Mor harn y'i gwnaed, a'i nos  
fel brad o wlad nad oedd ganddi ond un tost wahaniaeth –  
estynedig ei thra-gostyngu.

Yn ôl y tu draw i ddwrn ei phlwyf, mae'n methu â chyfryngu;  
hi biau'r lledu... 'Lleder byth, Wlad gobaith a gogonedd.'  
Wy clwc y sarff a ollyngodd Adda ar ei bridd gerllaw,  
gofl lafa'i gyflafan. 'Aros yw diben Pen,' meddai hwnnw  
hebdo, na all drwyddo dreiddio. Cain biau a ddywed,

ond 'fydd dim oll o fewn ei afael, os gafael yw dirnad.'

Am mai 'Cael' yw'i ferf,

'Trechu' yw ei drwch o wrthrych. Cyfrwng sy'n ei rhwystro'i  
hun rhag y cyffwrdd. Ei hwrdd o fwyell fu torri gair.

Ni fyn ef i neb arall gael teimlo'n 'wlad'. Cyfrwng biau'r  
term hwn, monopoli o daith wrth ffon, o ffair  
i ffair, lle y ceidw farbariaid heb un yn deffro erioed  
fel na ellir dadrithio ynghylch pwy bynnag ar ddaear  
biau'r ddaear.

Pa olyn fydd ar ôl i'r iaith wedi i'th filwyr lluosaid ffôl  
ei phowlio i lawr ein rhiw, bob hwyl ohoni, whi!  
i bob ymyl ym mhob coedwig, ac esgidiau trwm bob nos,  
wedi codi yn fwyd yr afrlladen fflam a'i gosod  
yn dyner a difai ar dafod? Gwaeddai yntau draw'r Mawr:  
'fe'th godir i fod yn ni.' (Ni allai byth weld y pwynt.)

'Nyni yw'r norm.'

Ac yn y bryniau hyn, myn y Cyfrwng gan yr iaith  
fudandod. Tywyll fyddai'i diffyg sill. Hyd yn oed  
pan ganai hi gywyddau yno, mynnai'r gwrandaewyr  
feini'n eneidiau. Dyma ar y cerrig ffordd felys  
i beidio ag amgyffred. Ond os oedd priodas i fod,  
y llawdriniaeth gyntaf fyddai dringo i flingo tafod  
a'i dreiglo tua'r bûn.

Mewn patrwm fel hyn, nid her gan y fechan wâr  
yw caru yn gyntaf, ond cael ei deall. Dilladwyd y Mawr  
i beidio. Beth 'wnaiff y fechan? Gerbron yr annirnad cul,  
ni sylwodd y Mawr ar 'y mawr drwy fod yn fach'.

Ble'r â hon i roi ei phen i lawr? I'r Ynys. 'Rhamantiaeth!'  
'Dim oll ond estyn llaw i'r lleill. Dim ond canu ein gwên  
dan y balcon crand

rhamantus.' Tu hwnt i'r llu, mi gollaist dy ben  
am ben ein Gwales yn y diffyg gobaith, i droi  
Cyfrwng a fo ben yn bont. Ac eistedda'r Cyfrwng  
ar ben y llall yn ddigon clyd: 'Ti laid, ni'th wneid  
yn ennill. Felly, cei di'r fraint o ddeall y drefn  
gydwladol mewn lle mae'r meirwon yn goroesi'n  
irach nag unman arall.'

## AI GENI A MWY YW AILENI?

Ie; go iawn y ganwyd

aileni'n eni union.

Llawer o waed yw yn lle'r Eden.

Dô'i'n un croeso

ym mreichiau'r Un

a fu'n anwel ei gyrch

yn ein gwâl:

y rhyddid yn ewn o gynnes o fewn

y fynwes, o'i fedd yn syth i faddon.

Roedd yna berthyn cyn geni

i raddau'n ei borthi,

y rhosyn gwyn

a arhosai'n gaeth,

y golomen wen

yn glwm yn ei nyth.

Wele'r cyfrif

doluriau fel doleri

uwch y gist gan Artist yr Artaith.

Yna'n grogfa'r brych wrth ddrych,

esgynfa liw drwy'r esgor

o nyth noeth i'r gweld gwyn,

rhwygwyd hi o'r groth i gôl

mor lân â diflaniad,

a'i gweld-hi'n adar gwyllt wrth eu gwaith

o afiaith mewn gelyn

wedi ei-thyfu'n eithafiaeth gwaedu.

## LLAWENYDD

Nid  
cenfaint  
o ddagrau  
oedd  
y llawenydd  
yn ysgubo  
i lawr  
gruddiau'r  
gerdd.  
Dim ond  
llygaid ar ôl  
llygaid bob  
eiliad yn  
yr un hen  
raeadrau  
yn dy anwesu  
di,  
ond mai gwaed  
oedd yn drwydded  
iddynt ochain  
y fath  
ochrau llawen bach.

## GWEDDI BRAT

Gallaf ddweud bara a menyn o weddi  
yn gyhoeddus. Ond mae 'na rai gweddfiau  
nad yw dyn arall yn cael eu clywed.  
Nid oes arall yn deilwng. Nid oes  
neb arall yn ddigon maddeugar, nac  
yn ddigon gwirion i'w caru. Ond mae pen  
y bryniau'n llawenhau wrth y rwtsh yma.  
Mae ef yn medru edrych tuag i lawr  
ar y corneli lle y cripiodd y ci  
i gyfodi edifeirwch o waed ei fola.  
Ac mae'n dweud OK os oes rhaid.  
Os na elli wneud yn well na hyn,  
cymeraf dy wehilion yn fy mynwes:  
dy gywilydd. Yr unig amod yw dy fod  
yn lluchio'r cwbl i'r llwch yn gyntaf  
cyn gynted byth ag y medri di, yn  
smotyn ysgarthion, ti'r rhwbiad ar bapur, –  
a'th fod, i'r fan yna, yn tywallt pob poen  
o'r hyn roet ti'n ei feddwl oeddet ti;  
ac yna, y babi swci, yn dy gewyn a'th gri  
a'th syfrdandod afresymol, yn chwifio diolch,  
fe gei'r gweld. Cei fod yn llygad-dyst  
i'r Gogoniant hwnnw, fy mheth bychan,  
gan olau gweddnewidiedig anghreedig.

HETH SGRIFENNU (CÂN COEDEN)

Wedi blwyddyn neu ddwy o unigrwydd  
y marw disillaf wrthi, wedi misoedd  
di-air pan wyf gant

y cant yn sicr

nad oes ond blinder ar ôl, mae'r ddôl  
yn symud y mymryn lleiaf ac y mae  
mwydyn di-sut yn ceisio cripan siffrwd  
drwy friwsion o gôl

terra incognita

allan ond yn methu, wele'r henwr ychydig  
yn syn fod y fath syflyd tyn wedi cynanu  
o leiaf 'amhosibl'. Po fwyaf hallt  
y chwyth uchod

andros o ddannedd dros

dyndra, mwyaf yr ysgydwa'r pryf-genwair  
o egin-pren diganghennau a diddeilios hyn  
rhwng bysedd traed dól gan addo'n ôl fath

o fydr cerdd

dan wyneb y pridd drwy

gofleidio hyd yn oed

'na', a chodi mewn gwên o ystyfnigrwydd ffôl  
o'i grud o orffennol geiriol, a'r sawr baw  
yno'n syrthio blisgo o'i geg, bron fel hen  
wŕ uwch ei bin sych am

chwyrnu marwnad

gan fod pyncio hyd yn oed rhywbeth

yn bleidlais o blaid.



## MEGIS GEFEILLIAID

Er nad wyf ond yn ymyl y storm  
yn ail law ac yn ail euog,

yn ddieithr i'r dail treuliedig  
a'u mynyddoedd o gochni trwm,

pan fo anwylyn mewn man pell  
dan ganol y pydew, fe'i gŵyr fy stumog.

Does dim cwmwl a gyffyrdda â'i ysgwydd  
nad ymgollaf yn ei wallt.

Mae yma siglad baich felly i wrthod  
cynifer o draed haerllug cadarn;

a syrth brics y muriau meirwon  
ar gefn actor dianadl ei ddrama.

Sut y rholia'r llygad stormus mor bell  
dros gerrig, drwy dwneli mor dywyll?

Rhwyg adain glöyn coed Amasón  
sy'n gwyro'n gorwynt chwerw adlais yma.

Fe'i trawsblennir mwyach yn ing o lawr  
i lawr, wedi'i chwythu o'th gylla i'm cylla,

gan naddu ynom wingo angau,  
mewn calon goll, yn ddyfnaf ympryd.

TEULU WRTH Y BWRDD

Beth 'ganodd hyn? Un dydd meddal,  
(nid noson o lesmair esmwyth,  
na dwy yn dod at ei gilydd  
â neidiadau nodedig, na deg  
yn ymgartrefu yn y ffwrn fwyaf  
dychwelus a phlyg y ces fy llosgi  
ynddi erioed) deg pâr meddal oedd  
o goesau'n cynnal un ystyllen ac arni  
wledd wlyb o chwerthin. Dyna fater  
arall. Mae'r cwbl yn arall, yn wir,  
ac yn teledu cân ein tylwyth.  
Mae'r rhain, fricsen ar fricsen,  
yn dal to dros lawr, ond y drws  
tal mewn bwrdd sy'n saernïo'n teulu,  
ac yma'n eu palfalu a gafael yn yr un.

Wrth y drws saif mam a 'nhad.  
Beth 'wnaethan nhw mor ugain oed o galon?  
Bob amser, bu'u drws gwrteithiol cyfeillgar  
yn agored i rai newydd dwf,  
sef y rhai a ddagreuir i'r ardd.  
Dowch i mewn, ardd; a'r ystyllen eto  
a'r bara a'r gwin drwy'r llwnc arni'n  
ein llyfu at ein gilydd i dywyllu  
gan greu math o bryd bwyd chwerthin.  
Dyfeisiwyd pryd anymarferol o'r fath inni  
fod yn forfil o deulu mewn môr bach

mor fach, wrth fod mor ddychwelus, fel  
na bydd neb ond yn raddol, wrth ein clywed,  
yn clywed mwy na sut, na chwaith yr anfeidrol bam  
sy'n ceulo'n gyrliog am fforc-diwnio:  
dyna'r lle mor arferol sut bynnag mewn glud  
y'n canwyd ac y'n ganwyd ni i'n gilydd.

RHAGFYR 28, 2012 YN GALAN

Mentwrn fawd yn haul y Diwrnod Calan hwn  
law yn llaw, a chyffwrdd â phen y llanw'n dod  
a drefnwyd gan Un a'i taenodd er Ei glod  
fel y'n gwisgir, ddau mor llwydaidd, ond mor grwn  
i'n gwlychu ynddo. Fforiwn, a mentwrn ei fôr,  
heb nofio ond mewn hwyl pan wyddom law  
a braich odanom. Ynddo'n ddau belydryn y down

yn un gwawl. Ynddo y pynciwn. Gwawriodd tro'r  
annofwyr taenedig. Tynnwyd o'r haul Ei ddydd  
inni rodio drwyddo Ef, o'r gwyn i'r traeth  
heb synnu, yn falch fod Ei ryddid ef mor ddiogel,  
mewn gaeaf, â thragwyddoldeb. Gwynfyd fydd  
gorwedd ar draethell newydd, heb flinder traul  
ar led Ei lan, wedi'n lliwio i hoffi'i haul.

Ond ni sychwn. Ac ni feiwn fywyd di-ddŵr.  
Fe'i dywed y Gŵr a'i gŵyr fod gennym grwyn  
yn ein gwahanu sy'n ymddwyn braidd yn ffin  
i'n berwi ni'n-dau'n ddau lyn o fewn un ddysgl.  
Ond y fath ddysgl! Fe'i cyffelybir i fywydfad  
a ollyngir i'r môr ar gledrau dy galonnau,  
fy nghariad, heb ddim ond lawnsio adref  
ein hangen ingol. A'r sblaes ynddo ef yw Ef.

Lle bynnag y cyfarfyddwn â dau ddŵr a eilir yn gymer –  
fe ddigwydd yn fynych – estynnaf amdanat ti,

ac estynni amdanaf. Ymhlith gwaith gwelw ein gilydd  
mae gwyliau. Oherwydd hyn o daith y teithiwn ni  
ar ein priffordd drwy'n cydanian yn ein cyd-ddynion  
yn hapusach, wedi'r forlan. Edrychi ynof a gweli  
dy hunan yn haul yn ein heulwen. Edrychaf arnat ti –

A! Y fath edrych ffôl – fel y deawn, y daethom  
eto'n fwy nag un, eto'n un eiliad o eiliad araf,  
yn orymdaith braf ohonot. Tynni a thynnaf. Wi!  
Ni byddwn ninnau mwyach yn gallu datod  
atodiadau i'r fath fod. 'Pam lai?' ddywedi di.  
'Pam fwy?' meddaf finnu. Felly y byddwn undod.  
Methasom â'n nod o nawf nes iddo'n boddi'n rhod.